Llawlyfr i Gefnogi Tiwtoriaid Addysg Bellach ym maes Gwallt a Harddwch:

Sut i symud eich arferion addysgu i fyny'r continwwm dwyieithrwydd

Grŵp Llandrillo Menai

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Beth yw Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a set ddata LA26? 4

Hunanasesu 6

Meithrin sgiliau addysgu B3 7

Meithrin sgiliau addysgu B2 20

Meithrin sgiliau addysgu B1 37

Cyflwyniad

Mae'r llawlyfr hwn wedi'i gynllunio i gynorthwyo tiwtoriaid gwallt a harddwch i feithrin eu sgiliau addysgu dwyieithog a chynyddu eu hymwybyddiaeth o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r set ddata LA26 a ddefnyddir i gofnodi darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector addysg ôl-16 yng Nghymru.

Ei nod yw rhoi hyder i diwtoriaid yn y ffordd y cofnodir gweithgarwch a gwblhawyd yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar y LLWR a'u helpu i ganfod ble mae eu darpariaeth ar hyn o bryd. Fe'i cynlluniwyd hefyd i roi cyngor ymarferol i diwtoriaid gwallt a harddwch ar sut i symud eu haddysgu i fyny'r continwwm dwyieithrwydd. Mae'r llawlyfr yn ddogfen waith y gellir ei defnyddio i gyfeirio ati, yn ogystal ag i sefydlu targedau personol penodol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg/dwyieithog.

Mae'r llawlyfr hwn yn rhan o'r Pecyn Cymorth i Diwtoriaid. Yn y pecyn hefyd ceir:

- Cwrs e-ddysgu ar-lein - Deall Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) Mae'r modiwl dysgu ar-lein rhyngweithiol hwn yn rhoi trosolwg o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a sut y caiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i gofnodi darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector addysg ôl-16 yng Nghymru.
- Ap Adborth Sgiliaith - Yn yr ap hwn ceir ystod eang o eiriau ac ymadroddion cyffredinol y gall tiwtoriaid eu defnyddio i roi adborth a phrofiadau Cymraeg/dwyieithog i ddysgwyr.

Ewch i wefan Sgiliaith i gyrchu'r adnoddau hyn:

Sgiliaith

Mae cymorth a hyfforddiant pellach ar fethodoleg addysgu dwyieithog ar gael gan Sgiliaith. I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych gwestiynau am yr adnodd hwn â sgiliaith@gllm.ac.uk

Sut i ddefnyddio'r llawlyfr hwn

Mae'r llawlyfr wedi'i gynllunio i fod yn ddogfen waith ryngweithiol. Bydd lle yn y llawlyfr ichi ysgrifennu nodiadau, adfyfyrio ar eich arferion presennol ac ystyried sut y gallech ddatblygu eich dulliau addysgu i gynnwys rhai o'r strategaethau a drafodir.

Mae'r llawlyfr hefyd yn cynnwys dolenni i adnoddau allanol. Pan welwch yr iconau canlynol, gallwch gyrchu'r adnodd drwy un ai clicio ar yr hyperddolen neu sganio'r cod QR.

Beth yw Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a set ddata LA26?

Ar gyfer pob cwrs mae sefydliad AB yng Nghymru yn ei gofrestru, cofnodir gwybodaeth am y cwrs a'i hadrodd i Lywodraeth Cymru ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, neu'r LLWR. Mae'r LLWR yn cofnodi data ar sawl agwedd ar y ddarpariaeth ôl-16.

Cofnodir iaith y ddarpariaeth i ddysgwyr o dan set ddata LA26 y LLWR ac fe'i defnyddir i fonitro'r defnydd o'r Gymraeg mewn dysgu ôl-16. Defnyddir pum cod i nodi amrywiol lefelau'r dysgu a wneir yn y Gymraeg, o E1, lle na ddefnyddir unrhyw Gymraeg, i B1 lle mae'r dysgu'n cael ei gwblhau mewn cyd-destun hollol ddwyieithog. C1 yw dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg.

Y nod yw datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

Er mwyn gweithio tuag at hyn, mae'n bwysig gwybod ble mae eich darpariaeth ar y continwwm ar hyn o bryd a beth yw cod LA26 cywir y LLWR ar gyfer eich darpariaeth.

Beth am edrych ar y continwwm i weld sut mae'r ddarpariaeth yn edrych ar bob cam? Wrth i chi edrych ar y gwahanol gamau, meddyliwch am ble mae'ch darpariaeth chi ar y continwwm? Cliciwch ar y codau i ddysgu rhagor.

E1 - Dysgu ac asesu yn y Saesneg yn unig.

B3 - Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. mae defnydd o'r Gymraeg wedi'i gyfyngu i gyfathrebu llafar neu i ran fach iawn o'r dysgu. Asesu yn y Saesneg yn unig. Gellir defnyddio'r cod hwn i gofnodi sefyllfaoedd lle defnyddir ychydig o Gymraeg yn ystod y dysgu. Nid yw ychydig o ddefnydd o Gymraeg achlysurol yn ddigon iddo gael ei gofnodi. Mae angen rhyngweithio Cymraeg rhwng asesydd/darlithydd/athro a dysgwr er mwyn iddo fod yn ddefnydd ystyrlon o'r iaith.

B2 - Cyfran helaeth o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. defnyddir Cymraeg llafar ac ysgrifenedig mewn sawl agwedd ar y gweithgareddau dysgu, ond nid ym mhob un. Asesu yn y Saesneg yn bennaf ond gallai rhywfaint fod yn y Gymraeg hefyd.

B1 - Y dysgu'n cael ei gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog ac o leiaf 50 y cant o'r asesiadau sydd ar gael yn y gweithgaredd dysgu yn cael eu cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cyflawni'r canlyniad drwy ddefnyddio unrhyw fethodoleg addysgu briodol.

C1 - Y dysgu'n cael ei gwblhau mewn cyd-destun Cymraeg a'r holl asesiadau sydd ar gael yn y gweithgaredd dysgu yn cael eu cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu'r ddogfen ganlynol i gefnogi colegau addysg bellach i ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac i roi hyder iddynt yn y ffordd y cofnodir gweithgarwch a gwblhawyd yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar y LLWR.

Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru

Hunanasesu

Pa un o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio eich arferion addysgu presennol orau?

E1

- Nid wyf yn defnyddio unrhyw Gymraeg gyda'm dysgwyr
- Mae'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'm haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg
- Mae'r cyfan neu bron y cyfan o'r adnoddau a rannaf â'm dysgwyr yn rhai Saesneg
- Nid yw'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'm dysgwyr yn defnyddio unrhyw Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth nac yn eu hastudiaethau
- Ar hyn o bryd does dim Cymraeg, neu does dim ond ychydig bach o Gymraeg, yn fy adnoddau, e.e. Cyflwyniadau PowerPoint, taflenni gwaith ac ati.
- Does dim un o'm dysgwyr yn cwblhau eu hasesiadau crynodol yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Hyd yma nid wyf wedi cyflwyno asesiadau dwyieithog i'm dysgwyr
- Hyd yma nid wyf wedi defnyddio sleidiau dwyieithog gyda'm dysgwyr

Os dyma'r disgrifiad gorau o'ch arferion addysgu presennol, cliciwch yma.

B3

- Rwyf yn defnyddio ychydig o Gymraeg achlysurol gyda'm dysgwyr, e.e. cyfarchion syml
- Mae'r dysgwyr yn dysgu rhai termau allweddol sylfaenol yn y Gymraeg
- ●Mae'r dysgwyr yn cael rhai tasgau/gweithgareddau i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg
- Mae'r dysgwyr yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg
- Mae'r rhan fwyaf o'm haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg
- Mae bron y cyfan o'r adnoddau a rannaf â'm dysgwyr yn rhai Saesneg

Os dyma'r disgrifiad gorau o'ch arferion addysgu presennol, cliciwch yma.

B2

- Rwyf yn sgwrsio'n rheolaidd yn y Gymraeg â'm dysgwyr
- Mae rhai o'm dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu
- Rwyf yn defnyddio rhai adnoddau dwyieithog gyda'm dysgwyr
- Mae tua hanner yr adnoddau a ddefnyddiaf gyda'm dysgwyr yn ddwyieithog
- Mae tua hanner fy rhyngweithiadau gyda'r dysgwyr yn Gymraeg neu ddwyieithog
- Mae rhai o'm hasesiadau ar gael yn ddwyieithog i'r dysgwyr
- Mae rhai o'm dysgwyr yn cwblhau eu hasesiadau crynodol yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Mae rhai o'm dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth neu yn eu hastudiaethau
- Mae rhai teitlau neu dermau allweddol yn ddwyieithog yn fy adnoddau, e.e. cyflwyniadau PowerPoint, taflenni gwaith ac ati.

Os dyma'r disgrifiad gorau o'ch arferion addysgu presennol, cliciwch yma

B1

- Mae'r cyfan neu bron y cyfan o'r adnoddau a ddefnyddiaf gyda'm dysgwyr yn ddwyieithog
- Mae fy holl asesiadau ar gael yn ddwyieithog i'r dysgwyr
- Mae fy sleidiau PowerPoint yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Mae'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'm haddysgu yn ddwyieithog
- Rwyf yn siarad Cymraeg yn anffurfiol gyda'm dysgwyr yn aml mewn gwersi
- Gallaf ofyn cwestiynau Cymraeg i'm dysgwyr
- Gallaf gyfieithu pan fydd y dysgwyr yn cyfrannu yn y Gymraeg
- Mae fy nysgwyr yn cwblhau o leiaf 50% o'u hasesiadau yn y Gymraeg

Os dyma'r disgrifiad gorau o'ch arferion addysgu presennol, mae'n debyg eich bod eisoes ar lefel B1. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yna bethau y gallwch chi eu gwneud i gryfhau eich strategaethau addysgu dwyieithog - cliciwch yma i ddysgu rhagor

Gan eich bod bellach yn gyfarwydd â set ddata LA26 y LLWR a bod gennych syniad ble'r ydych chi ar y continwwm addysgu dwyieithog, cliciwch ar y cod sy'n disgrifio eich arferion addysgu presennol. Aiff hyn â chi i'r adran briodol o'r ddogfen. Yma fe gewch syniadau ymarferol i'ch helpu i gynyddu eich darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac i symud i fyny'r continwwm dwyieithrwydd. Mae modd ichi roi nod tudalen ar y rhan hon o'r ddogfen fel eich bod yn gallu cyfeirio ati eto.

E1	B3	B2	B1	C1

Meithrin sgiliau addysgu B3

Yn ôl eich asesiad, rydych yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ac mae eich holl asesiadau ar gael yn y Saesneg yn unig. Bydd yr adran nesaf yn cynnig rhai camau ymarferol y gallwch chi eu cymryd i ddechrau symud eich darpariaeth i fyny'r continwwm dwyieithrwydd, gyda'r nod o'ch helpu i gyrraedd lefel B3 yn gyntaf.

Does dim rhaid i chi gynnwys popeth a awgrymir isod yn eich arferion addysgu er mwyn cyrraedd lefel B3. Dewiswch y camau a'r gweithgareddau sydd fwyaf cyfforddus i chi ac sydd fwyaf addas i'ch cwrs ac i'ch dysgwyr. Os nad oes gennych unrhyw brofiad o gwbl o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwersi, dechreuwch gyda dim ond un neu ddau o'r syniadau a awgrymir. Gallwch bob amser ychwanegu rhagor ohonynt i'ch gwersi wrth i'ch hyder gynyddu.

Gair i gall

Ni fydd defnydd eich dysgwyr o'r Gymraeg a'u hagweddau tuag at yr iaith yn newid dros nos, felly os na welwch ganlyniadau ar unwaith peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to; dyfalbarhewch a daliwch ati i roi cynnig ar bethau newydd!

Cofiwch

Unwaith rydych chi wedi cyrraedd lefel B3 does dim rhaid i chi stopio! Daliwch ati i weithio eich ffordd drwy'r llawlyfr ac i symud i fyny'r continwwm dwyieithrwydd nes eich bod wedi cyrraedd lefel B1.

Beth yw darpariaeth ddwyieithog B3?

Beth am ddechrau drwy atgoffa ein hunain o beth yw darpariaeth B3:

“Mae’r model addysgu B3 yn cynnwys ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. mae defnydd o’r Gymraeg wedi’i gyfyngu i gyfathrebu llafar neu i ran fach iawn o’r dysgu. Asesu yn Saesneg yn unig. Gellir defnyddio’r cod hwn i gofnodi sefyllfaoedd lle defnyddir ychydig o Gymraeg yn ystod y dysgu. Nid yw ychydig o ddefnydd o Gymraeg achlysurol yn ddigon i gofnodi’r dysgu fel B3. Mae angen rhyngweithio Cymraeg rhwng asesydd/darlithydd/athro a dysgwr er mwyn iddo fod yn ddefnydd ystyrlon o’r iaith.”

Ble i ddechrau

Mae yna lawer o bethau syml y gallwch eu gwneud i ddechrau cynnwys y Gymraeg yn eich gwersi. Hyd yn oed os nad ydych yn siarad Cymraeg eich hun, neu os nad ydych eto’n hyderus yn eich sgiliau Cymraeg, mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud i gefnogi sgiliau iaith eich dysgwyr. Beth am edrych ar rai o’r pethau y gallwch chi eu gwneud i ddechrau ar eich taith addysgu dwyieithog?

1 Canfod ble mae eich dysgwyr ar eu taith iaith ar hyn o bryd

Lle da i ddechrau yw drwy ganfod pa sgiliau Cymraeg sydd gan eich myfyrwyr eisoes. Mae llawer o ffyrdd o wneud hyn, fel gwirio eu cofnodion ar systemau’r coleg neu drwy ofyn iddynt yn uniongyrchol. Ond, nid yw myfyrwyr bob amser yn datgan lefel eu sgiliau Cymraeg yn gywir ac mae sawl rheswm dros hyn. Felly, beth allwn ni ei wneud ei gael gwell darlun o sgiliau Cymraeg ein myfyrwyr? Un dull effeithiol o wneud hyn yw drwy osod tasg sy’n eu holi mewn ffordd anuniongyrchol am eu defnydd o’r Gymraeg. Enghraifft o dasg o’r fath yw tasg ‘Y Daith Iaith’

Y Daith Iaith

Yn eu gwers gyntaf, gofynnwch i’ch dysgwyr lenwi graff o’u taith iaith i ddangos faint o Gymraeg y maent wedi ei defnyddio a’i chlywed ar wahanol adegau yn eu bywyd. Mae’r ddogfen yn ffordd gyflym i fyfyrwyr ddangos faint o Gymraeg y maent wedi dod i gysylltiad â hi hyd at y pwynt hwn, yn ogystal â sut yr hoffent weld eu sgiliau Cymraeg yn datblygu yn y dyfodol.

Lawrlwytho Taflen Waith Taith Iaith Sgiliaith: Taflen Waith:

Felly, sut mae hyn yn helpu?

Mae llenwi’r ddogfen ‘Taith Iaith’ gyda’ch dysgwyr yn helpu i wneud pethau’n eglur. Mae’r rhan fwyaf o systemau colegol yn gofyn i ddysgwyr nodi’n syml a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Nid yw hyn yn ystyried yr ystod eang o gysylltiadau â’r Gymraeg y mae’r dysgwyr wedi eu cael neu sut y maent yn defnyddio’r Gymraeg, neu wedi ei defnyddio yn y gorffennol.

Unwaith y bydd gennych ddarlun mewn eglur o set sgiliau a phrofiadau ieithyddol dysgwyr unigol, gallwch ddefnyddio’r wybodaeth i gynllunio sut i’w helpu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod yr amser y byddwch yn gweithio gyda nhw. Bydd hefyd yn fodd i chi adnabod y myfyrwyr hynny a all eich helpu i ddod ag ychydig mwy o Gymraeg i’r ystafell ddosbarth.

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

2 Canfod ble mae eich dysgwyr ar eu taith iaith ar hyn o bryd

Mae cyflwyno geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml i'ch gwersi a'ch rhyngweithiadau â'ch dysgwyr yn ffordd dda o normaleiddio'r Gymraeg a chael eich dysgwyr i ddod i arfer â chlywed y Gymraeg a dechrau ei defnyddio.

Dechreuwch drwy gyflwyno cyfarchion, adborth a chwestiynau Cymraeg syml. Peidiwch â diystyru'r effaith y gall y rhain eu cael ar yr amgylchedd dysgu. Yn ogystal, bydd y mathau hyn o gyfarchion yn ddefnyddiol i'ch dysgwyr wrth iddynt symud o fyd addysg i'r gweithle.

- Er enghraifft, ar ddechrau'r wers, defnyddiwch gyfarchion Cymraeg.
  - Bore da
  - Pnawn da
  - Pawb yn iawn?
  - S'mae pawb
- Cyfarchwch y dysgwyr yn unigol wrth iddynt ymuno â'r sesiwn neu gerdded i'r ystafell.
  - "Bore da, Sioned, sut wyt ti heddiw?"
- Dyma rai posteri ynghyd â llawlyfr o gyfarchion, cwestiynau ac ymadroddion defnyddiol. Cliciwch ar y delweddau i lawrlwytho'r posteri a gosodwch nhw yn eich ystafell ddosbarth i'ch atgoffa chi

Cyfarchion

Adborth

Cwestiynau Syml (Gogledd)

Cwestiynau Syml (De)

Llawlyfr o dermau adborth dwyieithog

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

3 Cwblhau cwrs ar-lein Cymraeg Gwaith

Mae llawer o adnoddau am ddim ar gael i'ch helpu chi a'ch dysgwyr i feithrin eich sgiliau Cymraeg. Mae Cymraeg Gwaith yn adnodd defnyddiol ar gyfer dysgu Cymraeg neu wella eich sgiliau Cymraeg. Mae'r rhaglen Cymraeg Gwaith yn cynnwys cyfres o gyrsiau ar-lein 10 awr sy'n canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg ar gyfer y gweithle, ac maent i gyd ar gael am ddim. Yn ogystal â chyrsiau mwy cyffredinol, mae yna hefyd gyrsiau sydd wedi cael eu teilwra ar gyfer sectorau penodol.

Cymraeg Gwaith - ar eich cyfer chi

- Mae cyrsiau Cymraeg Gwaith yn ffordd dda o gynyddu eich geirfa Gymraeg a bydd hefyd yn eich helpu i fagu hyder wrth ddefnyddio'r iaith.
- Mae'r cyrsiau 'Croeso' a 'Croeso'n Ôl' i ddechreuwyr a byddant yn eich helpu i'ch cychwyn ar eich taith Gymraeg.

Cwrs 'Croeso' Dysgu Cymraeg

Cwrs 'Croeso'n Ôl' Dysgu Cymraeg

Cwrs Dysgu Cymraeg ‘Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg: Rhan 1

Cwrs Dysgu Cymraeg ‘Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg’: Rhan 2

Cwrs Dysgu Cymraeg ‘Croeso: Arweinwyr mewn Addysg’: Rhan 1

Cwrs Dysgu Cymraeg ‘Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg’: Rhan 2

Cymraeg Gwaith - ar gyfer dysgwyr

- Gallwch hefyd ddefnyddio’r adnoddau Cymraeg Gwaith gyda’ch dysgwyr. Beth am osod tasg i’ch dysgwyr gwblhau un o’r cyrsiau? Bydd yr adnoddau hyn nid yn unig yn eu helpu gyda’u gwaith cwrs, ond byddant hefyd yn helpu i’w paratoi ar gyfer swyddi sydd yn gweithio efo’r cyhoedd ar ôl iddynt adael y coleg.
- Dyma rai enghreifftiau o’r pynciau y mae’r cyrsiau Cymraeg Gwaith yn eu trafod:
  - Rhifau Cymraeg
  - Ynganu enwau Cymraeg
  - Dyddiau’r Wythnos
  - Sut i ddweud ymadroddion syml
  - Geiriau Cymraeg am arian
- Tra bydd eich dysgwyr yn cwblhau’r cwrs Cymraeg Gwaith byddai’n arfer da rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio’u sgiliau Cymraeg newydd, yn y dosbarth a’r tu allan iddo.
- Anogwch eich dysgwyr i ddefnyddio’r hyn y maent wedi ei ddysgu ar y cwrs Cymraeg Gwaith wrth siarad â chi, wrth siarad â’u cyfoedion ac wrth gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp ac ati.
- Bydd y cyrsiau Cymraeg Gwaith hefyd yn ddefnyddiol i ddysgwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer profiad gwaith ym maes gwallt a harddwch.
- Drwy gael eich dysgwyr i gwblhau’r cyrsiau Cymraeg Gwaith maent yn gwneud ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg, sy’n ddisgwyliedig yn y model addysgu B3.

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

4 Cwrs Ar-lein Prentis-iaith

Mae cyrsiau ar-lein byr Prentis-iaith ar gyfer prentisiaid sydd ag ychydig iawn neu ddim sgiliau Cymraeg, neu'r rhai sydd eisoes yn gwybod ychydig o Gymraeg. Mae dwy lefel i'r cyrsiau Prentis-iaith, Lefel Ymwybyddiaeth a Lefel Dealltwriaeth. Mae pob lefel yn cynnwys pum cwrs cyffredinol.

Er eu bod wedi cael eu cynllunio'n benodol ar gyfer prentisiaid, mae'r cyrsiau hyn yn addas ar gyfer unrhyw un sydd am ddysgu Cymraeg. Mae'n cymryd tuag awr i gwblhau pob modiwl.

Prif fwriad y cyrsiau Prentis-iaith yw meithrin sgiliau Cymraeg ar gyfer gwaith a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel sgìl yn y gweithle. Mae llawer o bwyslais ar ddysgu termau ac ymadroddion allweddol y gellir eu defnyddio bob dydd ym myd gwaith; bydd y termau a'r ymadroddion allweddol hyn yr un mor bwysig i ddysgwyr ar eu cwrs gwallt a harddwch yn y coleg.

Bydd cael eich dysgwyr i gwblhau'r modiwlau Prentis-iaith yn eu galluogi i wneud ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg. Os nad ydych yn sicr pa lefel sy'n addas i'ch dysgwyr chi, mae yna gwis y gallant ei wneud i'w helpu i benderfynu pa lefel sydd orau.

Cyrsiau cyffredinol Prentis-iaith - Lefel Ymwybyddiaeth a Lefel Dealltwriaeth

Lefel Ymwybyddiaeth

Lefel Dealltwriaeth

Cwis Prentis-iaith

Gofynnwch i'ch dysgwyr gwblhau'r cwis byr hwn i benderfynu pa gwrs Prentis-iaith sydd orau iddynt.

Cwis Prentis-iaith

Tra bydd eich dysgwyr yn cwblhau'r modiwlau Prentis-iaith byddai'n arfer da rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg newydd, yn y dosbarth a'r tu allan iddo.

Gallech hefyd annog eich dysgwyr i ddefnyddio'r hyn y maent wedi ei ddysgu wrth siarad â chi, wrth siarad â'u cyfoedion, wrth gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp, ac yn salon ac ati.

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

5 Annog dysgwyr i ddysgu ychydig o dermau penodol ac ymadroddion defnyddiol yn y Gymraeg

Hyd yn oed os nad ydych yn siarad Cymraeg eich hun, gallwch annog eich dysgwyr i ddysgu rhai termau ac ymadroddion Cymraeg sy'n ymwneud yn benodol â gwallt a harddwch.

Mae yna lawer o adnoddau defnyddiol y gall dysgwyr eu defnyddio i gyfieithu termau allweddol ac i ddysgu ymadroddion newydd. Edrychwch ar yr adnoddau hyn i ddod o hyd i dermau ac ymadroddion sy'n gysylltiedig â gwallt a harddwch.

Ap Geiriaduron

- Geiriadur Saesneg-Cymraeg / Cymraeg Saesneg sy'n caniatáu i chi chwilio all-lein am filoedd o eiriau Cymraeg a Saesneg (gan gynnwys termau addysg safonol sy'n cael eu defnyddio yn y sector gwallt a harddwch) yw'r Ap Geiriaduron.
- Mae'r ap ar gael yn rhad ac am ddim i'w lwytho ar ddyfeisiau Android neu iOS.

Ap Geiriaduron

Gellir defnyddio'r ap hwn mewn nifer o ffyrdd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg. Er enghraifft, mae rhoi termau Cymraeg ar wal yr ystafell ddosbarth yn ffordd dda o helpu dysgwyr i'w dysgu a'u cofio, felly beth am osod tasg i'ch dysgwyr greu poster o dermau allweddol i chi gan ddefnyddio'r ap?

Yn y cyfamser, dyma ddolen i bosteri o dermau allweddol y gallwch eu hargraffu a'u defnyddio'n syth bin:

Posteri o Dermau Allweddol ar gyfer y sector gwallt a harddwch

Fideo o Dermau Allweddol ar gyfer y sector gwallt a harddwch

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

6 Duolingo

Mae'r ap Duolingo yn ffordd wych arall o ddysgu Cymraeg am ddim.

Mae'r ap Duolingo'n ffordd dda o gynyddu eich geirfa Gymraeg a bydd hefyd yn eich helpu i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r ap hefyd yn gadael i chi gysylltu â theulu, ffrindiau neu gydweithwyr sy'n ffordd wych o symbylu eich hun, o gefnogi eraill ac o gael rhywfaint o gefnogaeth eich hun.

Pam na wnewch chi gael eich dysgwyr i roi cynnig ar Duolingo? Mae'r ap yn gadael i ddefnyddwyr:

- Gasglu coronau wrth gwblhau lefel neu sgìl
- Cofnodi eu rhediad, sef nifer y dyddiau ar ôl ei gilydd maent wedi bod yn astudio
- Ennill calonnau drwy ymarfer

Mae'r nodweddion hyn yn golygu ei fod i'r dim ar gyfer herio eich dysgwyr. Er enghraifft, gallech herio eich dysgwyr i lawrlwytho ap Duolingo a chasglu 5 coron, neu gyrraedd rhediad o 7 diwrnod. Mae hon yn ffordd wych o gael dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg, hyd yn oed os nad oes gennych lawer o Gymraeg eich hun, neu ddim Cymraeg o gwbl.

Duolingo

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

7 Gwahodd siaradwyr gwadd o'r maes gwallt a harddwch

Hyd yn oed os nad ydych yn siarad Cymraeg eich hun, neu os nad ydych eto'n ddigon hyderus i ddefnyddio eich Cymraeg gyda'ch dysgwyr, mae cael siaradwr gwadd yn ffordd dda o ddod â'r Gymraeg i'r ystafell ddosbarth.

Bydd gwahodd siaradwyr gwadd i'ch gwersi yn rhoi cyfleoedd i'ch dysgwyr glywed y Gymraeg yn cael ei siarad. (Wrth gwrs, does dim rhaid i'ch siaradwyr gwadd gyflwyno popeth yn y Gymraeg. Os nad yw'ch dysgwyr yn rhugl, efallai y byddant am ddefnyddio ychydig o gyfarchion syml ac ychydig o eiriau ac ymadroddion Cymraeg allweddol yn unig.)

Yn ogystal â siarad Cymraeg, mae'ch siaradwyr gwadd yn debygol o fod yn arbenigwyr yn y pwnc gwallt a harddwch yr ydych yn ei ddysgu. Maent felly mewn sefyllfa ddelfrydol i siarad â'ch dysgwyr am werth sgiliau Cymraeg i'r sector dan sylw.

Neu fe all eich siaradwr gwadd fod yn gyflogwr. Os felly, gallai siarad â'ch dysgwyr am y galw mawr sydd yna am weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn y sector gwallt a harddwch, am werth y Gymraeg i gyflogadwyedd a sut y mae cael staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn fanteisiol i sefydliadau.

Mae clywed pobl o fyd diwydiant yn sôn am werth y Gymraeg yn ysgogydd gwych a dylai helpu eich dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr weld sut y bydd eu sgiliau Cymraeg yn fanteisiol iddynt wrth iddynt adael byd addysg ac ymuno â'r gweithlu gwallt a harddwch.

Os ydych yn cael anhawster i gael siaradwyr gwadd i ddod i'ch gwersi, mae dangos fideos o siaradwyr gwadd yn ddewis da arall. Dyma fideo a baratowyd ymlaen llaw a allai fod yn ddefnyddiol i chi:

Manteision y Gymraeg: Sadie o Salon Harddwch Tsunami

Yn y fideo, mae Sadie yn trafod pa mor fanteisiol yw gallu siarad Cymraeg i'w swydd yn y salon.

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

8 Defnyddio Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddod o hyd i adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn y sector gwallt a harddwch

Mae Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn lle gwych i ddod o hyd i adnoddau ar gyfer y sector gwallt a harddwch sydd eisoes ar gael yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac y gallwch ddechrau eu defnyddio'n syth bin!

Mae'r Porth yn dod ag ystod eang o adnoddau Cymraeg a dwyieithog, sydd wedi'u hanelu'n benodol at y sector addysg ôl-16, at ei gilydd mewn un lle ac yn cynnwys cyfleuster chwilio sy'n ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'r union beth rydych chi'n chwilio amdano.

Mae'r mathau o adnoddau sydd ar gael yn amrywio, o gyflwyniadau i daflenni dosbarth a hyd yn oed gyrsiau i ddysgwyr eu hastudio'n annibynnol. Gallwch ddefnyddio'r adnoddau yn eich gwersi neu roi'r dolenni iddynt ar eich llwyfan dysgu digidol (e.e. Moodle neu Google Classroom) fel bod y dysgwyr yn gallu eu defnyddio ar eu pennau eu hunain.

Mae adnoddau newydd yn cael eu datblygu'n gyson a'u hychwanegu i'r Porth, felly mae'n werth edrych arno'n rheolaidd i weld beth sy'n newydd. Neu gallwch danysgrifio i dderbyn negeseuon e-bost i roi gwybod i chi am adnoddau newydd.

Defnyddio'r Porth

Gwyliwch y fideo i ddysgu rhagor am sut mae'r Porth yn gweithio a sut i'w ddefnyddio

Defnyddio'r Porth

Chwilio'r Porth

Ewch i'r Porth a dechreuwch chwilio am adnoddau

Chwilio'r Porth

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

Astudiaethau Achos

Yn yr astudiaeth achos ganlynol, mae Sarah yn siarad am sut y mae hi wedi gweithio i ddechrau cynnwys rhagor o'r Gymraeg yn ei dysgu a'i haddysgu. Gwyliwch y fideo i weld a fydd profiadau Sarah yn eich helpu i feddwl am ffyrdd newydd o ddod â'r Gymraeg i'ch ystafell ddosbarth a chynnwys y Gymraeg yn eich gwersi. Mae'n bwysig cofio nad oes un ffordd gywir o wneud hyn a bod angen i chi ddarganfod beth sy'n gweithio orau i chi, eich pwnc a'ch dysgwyr.

Sarah Powell

Ystyriwch yr hyn rydych wedi ei weld yn yr astudiaeth achos. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai ffyrdd a gallech gynnwys rhai o'r syniadau hyn yn eich gwersi:

Cynllun gweithredu

Rydych yn awr wedi cyrraedd diwedd y bennod **‘Meithrin sgiliau addysgu B3’.** Rydym wedi edrych ar nifer o strategaethau y gallech eu cynnwys yn eich gwersi er mwyn symud eich darpariaeth o E1 i B3. Cymerwch ennyd i feddwl am yr hyn rydych wedi ei ddysgu a pha rai o’r strategaethau hyn yr hoffech roi cynnig arnynt.

Cofiwch - Does dim rhaid i chi gynnwys popeth a awgrymir isod yn eich arferion addysgu er mwyn cyrraedd lefel B3. Dewiswch y camau a’r gweithgareddau sydd fwyaf cyfforddus i chi ac sydd fwyaf addas i’ch cwrs ac i’ch dysgwyr. Os nad oes gennych unrhyw brofiad o gwbl o ddefnyddio’r Gymraeg mewn gwersi, dechreuwch gyda dim ond un neu ddau o’r syniadau a awgrymir. Gallwch bob amser ychwanegu rhagor ohonynt i’ch gwersi wrth i’ch hyder gynyddu.

Defnyddiwch y tabl isod i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cynnwys rhagor o Gymraeg yn eich gwersi. Ychwanegwch gymaint o fanylion â phosibl i’ch helpu i gyrraedd y targedau rydych wedi’u gosod. Cofiwch ddod yn ôl at eich cynllun gweithredu i adolygu eich cynnydd; mae hwn yn gyfle i edrych ar ba strategaethau sydd wedi gweithio i chi a pha newidiadau, os o gwbl, y mae angen i chi eu gwneud

Cam Gweithredu (y strategaeth/ gweithgaredd rydych am ddechrau ei defnyddio)	**Y Gynulleidfa Darged** (nodwch pa grŵp o ddysgwyr i’w targedu)	**Maes cwricwlwm** (nodwch ym mha uned neu fodiwl y mae’r cam gweithredu hwn i’w gynnwys ac ymhle)	**Adnoddau** (nodwch yr adnoddau y bydd eu hangen arnoch)	**Amserlen** (rhowch ddyddiad ichi eich hun i anelu ato)	**Adolygu** (Unwaith yr ydych wedi cyrraedd eich targed, cymerwch ennyd i adolygu pa mor llwyddiannus oedd hyn ac a oes angen gwneud rhywbeth yn wahanol y tro nesaf)

Meithrin sgiliau addysgu B2



Rydych naill ai wedi asesu eich hun fel un sy'n addysgu ar lefel B3 ar hyn o bryd (sy'n cynnwys ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg) neu rydych wedi gweithio eich ffordd drwy'r bennod flaenorol a bellach yn barod i ddysgu am feithrin sgiliau addysgu B2.

Mae'r tudalennau canlynol y cynnwys syniadau ymarferol y gallwch eu defnyddio er mwyn cynyddu faint o ddysgu sy'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eich gwersi. Bydd y syniadau hyn yn eich helpu i symud y raddol o fodel addysgu B3 i fodel addysgu B2. Cofiwch, does dim rhaid i chi gynnwys popeth a awgrymir isod yn eich arferion addysgu er mwyn cyrraedd lefel B2. Dewiswch y camau a'r gweithgareddau sydd fwyaf cyfforddus i chi ac sydd fwyaf addas i'ch cwrs ac i'ch dysgwyr.

Gair i gall

Cofiwch na allwch newid sgiliau ac agweddau eich dysgwyr tuag at y Gymraeg dros nos, felly peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to; daliwch ati i roi cynnig ar syniadau a strategaethau newydd er mwyn gweld beth.

Cofiwch

Unwaith rydych chi wedi cyrraedd lefel B2 does dim rhaid i chi stopio! Daliwch ati i weithio eich ffordd drwy'r llawlyfr ac i symud i fyny'r continwwm dwyieithrwydd nes eich bod wedi cyrraedd lefel B1.

Beth yw darpariaeth ddwyieithog B2?

Wrth symud o lefel B3 i B2 bydd cynnydd amlwg yn y Gymraeg a ddefnyddir mewn gwersi ac wrth ryngweithio â'r dysgwyr. Bydd cynnydd sylweddol yn y Gymraeg a ddefnyddir mewn rhyngweithiadau llafar ac ysgrifenedig, ac wrth roi adborth. Newid arall yw y bydd rhai asesiadau'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg (asesiadau ffurfiannol a/neu grynodol, llafar a/neu ysgrifenedig).

Os nad ydych yn defnyddio llawer o'r Gymraeg yn eich gwersi ar hyn o bryd, ac os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, cymerwch olwg ar y bennod flaenorol sy'n cynnig rhai syniadau ymarferol ynghylch sut i fynd ati i ddechrau cyflwyno'r Gymraeg i'ch dysgwyr. Bydd yr holl syniadau a gyflwynir yn adran flaenorol y llawlyfr hwn yr un mor ddefnyddiol wrth addysgu ar lefel B2.

Beth am atgoffa ein hunain o beth yw darpariaeth B2:

"Cyfran helaeth o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. defnyddir Cymraeg llafar ac ysgrifenedig mewn sawl agwedd ar y gweithgareddau dysgu, ond nid ym mhob un. Asesu yn y Saesneg yn bennaf ond gallai rhywfaint fod yn y Gymraeg hefyd."

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r canllawiau canlynol ar y model addysgu B2:

- Os cafodd unrhyw ran o dystiolaeth y portffolio ei chwblhau yn Gymraeg, gan gynnwys asesu llafar, byddai hyn yn atgyfnerthu y dylid ei gofnodi fel B2."
- Byddai hyn yn cynnwys defnyddio cryn dipyn o Gymraeg yn y dysgu a gallai gynnwys rhai asesiadau wedi'u cwblhau yn Gymraeg.
- Os yw tystiolaeth y portffolio yn Saesneg ond mae'r cwbl neu'r rhan fwyaf o'r sgwrsio / darparu wedi bod yn Gymraeg, gellid ei gofnodi fel B2.
- Y cwbl neu'r rhan fwyaf o'r darparu yn Gymraeg ond yr asesu yn Saesneg.

Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru

Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn yr ystafell ddosbarth

I symud eich model addysgu o lefel B3 i B2, canolbwyntiwch ar gynyddu'r cyfleoedd i'ch dysgwyr ddefnyddio Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn yr ystafell ddosbarth ac yn y salon.

Yn aml mae dysgwyr yn ei chael yn haws siarad Cymraeg nag ysgrifennu Cymraeg, felly mae darparu digon o gyfleoedd iddynt ddefnyddio Cymraeg llafar mewn gwersi yn ffordd dda o gynyddu eu defnydd o'r iaith. Peidiwch â phoeni os nad yw pawb yn eich dosbarth yn siarad Cymraeg, neu'n brin o hyder - gall clywed a gwrando'n weithredol ar y Gymraeg yn cael ei siarad gan eraill helpu dysgwyr i amsugno'r iaith a dysgu geiriau, ymadroddion a strwythurau iaith newydd.

Noder: Er mwyn annog eich dysgwyr i siarad mwy o Gymraeg mae'n bwysig bod eich ystafell ddosbarth yn lle diogel iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, h.y. bod y rhai nad ydynt yn rhugl yn gallu ymarfer a gwneud camgymeriadau heb gael eu barnu na'u gwawdio.

1 Gwneud y Gymraeg yn iaith yr ystafell ddosbarth

A. Mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn arbennig o fanteisiol ym maes gwallt a harddwch. Ar gyfer llawer o swyddi yn y diwydiant gwallt a harddwch, mae gallu darparu gwasanaethau Cymraeg yn fwy na gofyniad dymunol ond yn sgìl cwbl hanfodol.

Dechreuwch drwy osod esiampl i'ch dysgwyr a siarad Cymraeg ar bob cyfle - cyfarch dysgwyr yn y Gymraeg, canmol dysgwyr yn y Gymraeg, gofyn iddynt sut hwyl maen nhw ei chael ar eu gwaith ac ati. Does dim angen i ymadroddion byr a syml fel hyn fod yn ddwyieithog; gall hyd yn oed dysgwyr nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl ddysgu'n gyflym beth yw eu hystyr.

Cyfarchion

Adborth

Cwestiynau Syml (Gogledd)

Cwestiynau Syml (De)

B. Adborth

Dechrau rhoi adborth i'ch dysgwyr yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Gall ap geirfa ddwyieithog Sgiliaith - 'Ap Adborth Sgiliaith' - helpu gyda hyn. Yn yr ap ceir ystod eang o eiriau ac ymadroddion cyffredinol y gall tiwtoriaid eu defnyddio i roi adborth a phrofiadau Cymraeg/dwyieithog i ddysgwyr.

Ap Adborth Sgiliaith - App Store

Ap Adborth Sgiliaith - Google Play

C. Rhoi lle amlwg i'r Gymraeg yn eich ystafell ddosbarth drwy roi deunyddiau Cymraeg neu ddwyieithog ar y waliau. Y ffordd orau o wneud hyn yw cael eich dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau Cymraeg a dwyieithog i chi eu rhoi ar eich waliau. Gosodwch dasgau iddynt greu:

- Posteri o dermau allweddol ar gyfer gwallt a harddwch
- Poster o reolau'r ystafell ddosbarth/salon
- Posteri, taflenni neu lyfrynnau gwybodaeth a deunyddiau i farchnata'r salon
- Unrhyw ddeunyddiau gweledol eraill sy'n cynnwys testun Cymraeg neu ddwyieithog

Gall rhoi deunyddiau Cymraeg a dwyieithog ar waliau eich ystafell ddosbarth brocio'r cof a helpu'r dysgwyr i ddysgu geiriau ac ymadroddion allweddol ym maes gwallt a harddwch. Gallant hefyd helpu dysgwyr i deimlo'n fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg gan eu bod yn gallu bod yn sicr eu bod yn defnyddio'r geiriau/ymadroddion cywir.

Dyma bosteri y gallwch eu hargraffu a'u defnyddio'n syth bin:

Posteri o Dermau Allweddol ar gyfer y sector gwallt a harddwch

D. Mae'r cyrsiau 'Gwella Cymraeg' wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg sydd am adeiladu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig eu sgiliau ysgrifennu. Mae'r cwrs ar-lein hwn ar gael am ddim i bawb ei ddefnyddio, ac mae iddo ddwy ran:

Cwrs 'Gwella Cymraeg' Rhan 1

Cwrs 'Gwella Cymraeg' Rhan 2 2

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

2 Gwaith grŵp

Fel arfer mae gwaith grŵp yn gofyn am lawer o drafod ac felly mae'n rhoi digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg llafar. Y tro nesaf y byddwch yn creu grwpiau, meddyliwch sut rydych chi am eu strwythuro. Gallwch osod eich dysgwyr mewn grwpiau strategol ar gyfer trafodaethau a thasgau er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rhoi Dysgwyr mewn Grwpiau

Mae yna ambell beth i'w gofio wrth ddefnyddio gwaith grŵp:

- Bydd y ffordd rydych chi'n grwpio eich dysgwyr yn amrywio yn ôl y dasg a'r canlyniad sydd ei angen. Weithiau mae'n well rhoi siaradwyr Cymraeg rhugl mewn grŵp gyda'i gilydd, ond ar adegau eraill byddwch eisiau cymysgu siaradwyr Cymraeg rhugl a siaradwyr sydd ddim yn rhugl. Yn ystod eich cwrs/uned/modiwl
    - darparwch ddigon o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg rhugl weithio gyda'i gilydd er mwyn iddynt allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg (does dim rhaid gwneud hyn bob tro).
    - darparwch gyfleoedd i siaradwyr nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg weithio gyda dysgwyr rhugl. Gall y siaradwyr Cymraeg rhugl fod yn hwyluswyr gan gefnogi eu cyd-ddysgwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

- Wrth gymysgu siaradwyr Cymraeg rhugl a siaradwyr sydd ddim yn rhugl gwnewch yn siŵr fod yna elfen Gymraeg i'r dasg (e.e. creu poster neu gylchlythyr dwyieithog). Bydd hyn yn sicrhau na fydd yn grŵp yn cwblhau'r holl dasg yn y Saesneg.
- Sut bynnag y byddwch yn grwpio eich dysgwyr, cadwch olwg ar yr iaith sy'n cael ei defnyddio - nid yw'n anarferol i grŵp o siaradwyr Cymraeg rhugl siarad Saesneg gyda'i gilydd. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd angen i chi ymyrryd er mwyn newid yr iaith sy'n cael ei defnyddio i'r Gymraeg. Gallwch wneud hyn drwy fod yn gwbl bendant, h.y. gofyn i'r grŵp drafod y dasg yn y Gymraeg, neu gallwch fod ychydig yn fwy cynnil, e.e. drwy eu holi am y dasg yn y Gymraeg neu drwy eu hannog i roi ateb Cymraeg os oes angen.

Rhoi adborth ar dasg i'r dosbarth

Mae gofyn i grwpiau enwebu siaradwr i roi adborth i'r dosbarth ar ddiwedd y dasg grŵp yn ffordd dda arall o gael dysgwyr i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg llafar.

- Rhowch arweiniad clir i'r grŵp ymlaen llaw ar y math o adborth rydych am ei gael gan bob grŵp a byddwch yn glir ynghylch yr iaith rydych chi am iddynt ei defnyddio. Does dim rhaid i bob grŵp roi adborth yn y Gymraeg ond mae gofyn i grwpiau o siaradwr Cymraeg rhugl wneud hynny'n syniad da.
- Anogwch eich dysgwyr i wneud nodiadau - gall cael nodiadau i'w darllen yn uchel neu i gyfeirio'n ôl atynt helpu'r rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg hyderus.
- Bydd rhaid i grwpiau o ddysgwyr sydd ddim yn siarad llawer o Gymraeg roi adborth Saesneg i'r dosbarth - defnyddiwch hyn fel cyfle i drawsieithu (ewch i adran 4 i gael rhagor o wybodaeth am drawsieithu) drwy grynhoi'r hyn sydd wedi cael ei ddweud yn y Gymraeg.
- Gallwch wneud y trawsieithu eich hun neu ofyn i siaradwr Cymraeg rhugl roi cynnig arni.

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

3 Trawsieithu

Yn syml iawn, ystyr trawsieithu yw derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yna'i defnyddio mewn iaith arall. Ystyr hyn yn ymarferol yw rhoi gwybodaeth i ddysgwyr mewn un iaith, e.e. deunydd darllen, cyflwyniad yr athro, a gofyn iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynhyrchu gwaith mewn iaith arall, e.e. gwaith ysgrifenedig, trafodaeth grŵp.

Gall trawsieithu weithio'n dda iawn yng Nghymru, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae gan fyfyrwyr afael da ar y ddwy iaith. Mae'r amrywiaeth o ddeunyddiau Saesneg yn cynnig posibiliadau eang ar gyfer trawsieithu rhwng y ddwy iaith. Mae sawl ffordd o ddefnyddio trawsieithu mewn gwers, yn ogystal ag mewn lleoliadau gwaith gwallt a harddwch. Dyma rai enghreifftiau:

- Wrth holi dysgwyr mewn gwers, gofynnwch iddynt drawsieithu'r atebion i chi, h.y. os ydych yn cael ateb Saesneg, gofynnwch i rywun ei grynhoi yn y Gymraeg. Mae hyn yn gweithio orau pan fydd cwestiwn yn gofyn am ateb sy'n fwy nag ychydig eiriau.

- Weithiau gall fod yn anodd dod o hyd i raglen deledu Gymraeg ar yr union bwnc neu destun rydych chi'n ei ddysgu. Defnyddiwch raglen deledu Saesneg i gyflwyno gwybodaeth ac yna gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cynnwys yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y Gymraeg yn bennaf.
- Defnyddiwch erthygl Saesneg i gyflwyno gwybodaeth ar driniaeth therapi harddwch newydd, ac yna gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno prif bwyntiau'r erthygl yn y Gymraeg neu i greu poster, hysbyseb, taflen ac ati.

Mae trawsieithu'n gwneud mwy na dim ond helpu i feithrin sgiliau iaith; mae ymchwil yn dangos y gall trawsieithu hybu dealltwriaeth well a llawnach o'r pwnc. Mae darllen a thrafod pwnc mewn un iaith, ac yna ysgrifennu amdano mewn iaith arall yn golygu bod y cynnwys wedi cael ei ystyried a'i gymhathu'n llawn.

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

4 Chwarae rôl

Mae tasgau chwarae rôl yn ffordd wych o roi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg llafar mewn sefyllfaoedd lle nad oes rhaid iddynt boeni am wneud camgymeriadau.

Gallwch ddefnyddio unrhyw sefyllfa ar gyfer gweithgareddau chwarae rôl, ond cadwch at bethau sy'n berthnasol i'ch dysgwyr. Er enghraifft:

- Ateb y ffôn i gwsmer sy'n siarad Cymraeg a gwneud apwyntiad iddo
- Trafod sut i dorri a lliwio gwallt cwsmer
- Sgwrsio'n anffurfiol â chwsmer yn y salon

Bydd defnyddio sefyllfaoedd sy'n berthnasol i astudiaethau a dyheadau'r dysgwyr ar gyfer y dyfodol yn eu helpu i weld gwerth y Gymraeg iddyn nhw'n bersonol. Bydd sefyllfaoedd fel y rhain hefyd yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau Cymraeg ynghyd â thermau ac ymadroddion allweddol y gallant eu defnyddio yn y gweithle.

Bydd faint o Gymraeg y mae eich dysgwyr yn ei defnyddio mewn sefyllfaoedd chwarae rôl yn dibynnu ar eu gallu i ddefnyddio'r iaith - efallai y bydd gennych gymysgedd o siaradwyr Cymraeg rhugl a siaradwyr di-Gymraeg yn eich dosbarth a bydd angen i chi gynllunio'n unol â hynny fel eu bod i gyd yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel sy'n briodol iddyn nhw.

Cefnogi siaradwyr nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg a siaradwyr di-Gymraeg mewn sefyllfaoedd chwarae rôl

Bydd dysgwyr nad ydynt yn gwbl rugl eu Cymraeg, dysgwyr sy'n ddihyder o ran eu sgiliau Cymraeg, a dysgwyr nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg o gwbl, angen ychydig o gefnogaeth i ddefnyddio eu Cymraeg mewn tasgau chwarae rôl.

- Dechreuwch drwy ddangos iddynt ble y gallent ddefnyddio ychydig o Gymraeg. Er enghraifft, ar gwrs gwallt a harddwch gallech ddefnyddio sefyllfa sy'n gofyn i siaradwyr nad ydynt yn rhugl ddefnyddio termau Cymraeg/dwyieithog i ddisgrifio rhywun mewn cylchgrawn harddwch a bod y person arall yn tynnu llun yr hyn mae'n ei ddisgrifio.
- Rhowch amser i'r dysgwyr ysgrifennu nodiadau ymlaen llaw - gall fod yn ddefnyddiol iddynt gael rhywbeth i gyfeirio ato yn ystod y dasg chware rôl
- Gadewch i'r dysgwyr ddefnyddio adnoddau dysgu Cymraeg i baratoi'r sgript ymlaen llaw. Dyma rai adnoddau defnyddiol:
  - Apiau geiriaduron Cymraeg/Saesneg fel:

    'Ap Geiriaduron'

  - Cyrsiau ar-lein i roi rhagflas o'r Gymraeg fel cyrsiau Cymraeg Gwaith:

    Croeso i Cymraeg Gwaith: Rhan 1

    Croeso i Cymraeg Gwaith: Rhan 2

  - Prentis-iaith

    Lefel Ymwybyddiaeth

    Lefel Dealltwriaeth

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

5 Cyfweliadau ffug

Fel tasgau chwarae rôl, mae cyfweliadau ffug yn ffordd wych o roi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg llafar. Gall rhoi amser i ddysgwyr baratoi ar gyfer eu cyfweliad ffug drwy ysgrifennu nodiadau neu brociau i'r cof roi cyfle iddynt ymarfer eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig hefyd.

Cyfweliadau tebyg i rai ar y teledu

Gall y mathau hyn o gyfweliadau fod am unrhyw beth bron iawn, a rhoi cyfle i'r dysgwyr rannu gwybodaeth, safbwyntiau neu syniadau.

Bydd angen 'holwr' a 'gwesteion' ar gyfer y math hwn o gyfweliad - gwnewch yn siŵr fod eich dysgwyr yn cael cyfle yn y ddwy rôl (ond nid o reidrwydd yn yr un sesiwn addysgu).

1. Dechreuwch drwy ddisgrifio'r sefyllfa, gan ei gwneud hi'n berthnasol i'r dysgwyr, er enghraifft:
    - Gallai dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau gwallt a harddwch gael eu holi am ba sgiliau a phrofiadau maen nhw'n ei feddwl sy'n bwysig ar gyfer swyddi penodol.
    - Gallai dysgwyr gael eu cyfweld am yr hyn y byddent yn ei ddisgwyl y byddai gweithgareddau a/neu gyfrifoldebau dyddiol rhywun mewn salon.
    - Gallai dysgwyr sy'n astudio gwallt a harddwch gael eu holi am pam eu bod wedi dewis astudio eu cwrs.
2. Yna, rhowch gyfle i'ch myfyrwyr weithio mewn parau i drafod a chytuno ar eu cwestiynau (dylai tua 5 fod yn ddigon)
3. Dylai'r dysgwyr gael amser i amseru a chynllunio eu hatebion. Bydd hyn yn gyfle iddynt baratoi nodiadau neu brociau i'r cof i'w defnyddio yn y cyfweliad.
4. Rhowch amser i'r dysgwyr gael ymarfer mewn parau.
5. Yn olaf, gadewch i'r parau gyflwyno i'r dosbarth.

Cyfweliadau am swyddi

Nid yn unig mae ffug gyfweliadau'n gyfle i ddysgwyr baratoi ar gyfer cyfweliad go iawn, ond maent yn gyfle iddynt hefyd ddysgu am y cyfleoedd gwaith a all fod ar gael iddynt ar ôl iddynt orffen eu cwrs.

Bydd angen 'ymgeisydd' a 'phanel cyfweld' ar gyfer y math hwn o gyfweliad. Gall y panel cyfweld gynnwys cynifer o aelodau ag y dymunwch, ond mae'n debyg mai dau fyddai'r nifer delfrydol er mwyn rhoi digon o gyfle i bawb gyfrannu at y dasg. Byddai dysgwyr yn cael budd o gael cyfle i chwarae rhan y sawl sy'n cyfweld a'r sawl sy'n cael ei gyfweld.

1. Dechreuwch drwy roi manyleb a disgrifiad o'r swydd i'r dysgwyr, neu gofynnwch iddynt chwilio am swydd sy'n ennyn eu diddordeb.
    - Efallai bydd y gwefannau a ganlyn yn ddefnyddiol i chi gan eu bod yn hysbysebu swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg:
2. Rhowch amser i'r dysgwyr ymgyfarwyddo â gofynion y swydd a'r fanyleb person.

https://lleol.cymru/cy/swyddi

https://swyddi.360.cymru/

https://www.safleswyddi.co.uk

https://www.swyddle.cymru

3. Yna, rhowch gyfle i'ch myfyrwyr weithio mewn parau/grwpiau i drafod a chytuno ar eu cwestiynau (dylai tua 5 neu 6 fod yn ddigon) - efallai y bydd angen arweiniad arnynt ar y math o gwestiynau i'w gofyn.
4. Dylai'r dysgwyr gael amser i amseru a chynllunio eu hatebion. Bydd hyn yn gyfle iddynt baratoi nodiadau neu brociau i'r cof i'w defnyddio yn y cyfweliad.
5. Rhowch amser i'r dysgwyr gael ymarfer mewn parau/grwpiau.
6. Yn olaf, gadewch i'r parau/grwpiau gyflwyno i'r dosbarth.

Cyfweliadau ar gyfer Swyddi gwallt a harddwch

Gall y math yma o gyfweliad ffug fod yn gyfle i ddysgwyr ddefnyddio geirfa newydd ac i ymarfer defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa benodol ac ar gyfer diben penodol.

Er enghraifft:

- Gallai dysgwyr drafod sut i dorri a steilio gwallt dysgwyr
- Gallai dysgwyr ymarfer ateb galwad ffôn gan gleient a threfnu apwyntiad

Cefnogi siaradwyr nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg a siaradwyr di-Gymraeg gyda thasgau cyfweliad

Os oes gennych chi ddysgwyr sydd ddim yn siaradwyr Cymraeg hyderus, mae'n bosibl na fyddant yn gyfforddus i gwblhau'r holl dasg yn y Gymraeg - mae hynny'n iawn gan mai annog dysgwyr yw'r bwriad, nid gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus neu godi ofn arnynt. Yn yr achosion hyn, rhowch arweiniad i'r dysgwyr ynghylch faint o Gymraeg yr hoffech iddynt ei defnyddio a phryd, e.e. efallai na fydd y dysgwyr lleiaf rhugl yn gyfforddus i wneud dim mwy na chyflwyno eu hunain yn y Gymraeg, efallai y bydd eraill yn gallu ateb ychydig o gwestiynau yn y Gymraeg, tra bydd rhai yn eich dosbarth yn gallu cwblhau'r holl dasg yn y Gymraeg.

Cofiwch atgoffa eich dysgwyr nad oes rhaid i'w Cymraeg fod yn berffaith ar gyfer y dasg hon!

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

6 Cyflwyniadau llafar

Os caiff cyflwyniadau i'r dosbarth eu defnyddio ochr yn ochr â sleidiau, maent yn gyfle i ddysgwyr ddefnyddio Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.

Bydd faint o Gymraeg y mae eich dysgwyr yn ei defnyddio mewn cyflwyniadau'n dibynnu ar eu gallu i ddefnyddio'r iaith - efallai y bydd gennych gymysgedd o siaradwyr Cymraeg rhugl a siaradwyr di-Gymraeg yn eich dosbarth a bydd angen i chi gynllunio'n unol â hynny fel eu bod i gyd yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel sy'n briodol iddyn nhw. Mae'n bwysig fod y dysgwyr yn cael cyfarwyddiau clir ynghylch faint o Gymraeg y mae disgwyl iddynt ei defnyddio.

Dewisiadau:

- Siaradwyr Cymraeg rhugl - gallai dysgwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl lunio a chyflwyno cyflwyniadau Cymraeg neu ddwyieithog. Mae'n llawer haws rhoi cyflwyniad mewn un iaith. Mae cyflwyniadau dwyieithog ychydig yn fwy heriol ac yn cymryd mwy o amser i'w paratoi a'u cyflwyno, felly cadwch hyn mewn cof.
- Siaradwyr nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg - dylai dysgwyr sydd â rhywfaint o allu yn y Gymraeg allu llunio cyflwyniad sy'n ddwyieithog mewn rhannau. Gallai hyn olygu rhai sleidiau/taflenni dwyieithog a defnyddio cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg cyfarwydd, ond Saesneg fydd y rhan fwyaf o'r cyflwyniad.
- Ychydig iawn neu ddim sgiliau Cymraeg - gall dysgwyr sydd ag ychydig iawn neu ddim sgiliau Cymraeg o gwbl ddal gynnwys ychydig o Gymraeg yn eu cyflwyniadau. Dylid eu hannog i ddefnyddio cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg syml ar ddechrau a diwedd eu cyflwyniad (bore da, diolch, unrhyw gwestiynau? ac ati). Gyda chefnogaeth adnoddau fel yr Ap Geiriaduron gallent hefyd gynnwys rhai termau Cymraeg ar eu sleidiau.
- Mae'n bwysig fod y dysgwyr yn cael cyfarwyddiau clir ynghylch faint o Gymraeg y mae disgwyl iddynt ei defnyddio yn eu cyflwyniad. Gallai cyngor ar sut a phryd i ddefnyddio'r Gymraeg fod yn ddefnyddiol hefyd. Gallai hyn gael ei gynnwys ym mriff y dasg.

Ap Geiriaduron

Mae'n bwysig fod y dysgwyr yn cael cyfarwyddiau clir ynghylch faint o Gymraeg y mae disgwyl iddynt ei defnyddio yn eu cyflwyniad. Gallai cyngor ar sut a phryd i ddefnyddio'r Gymraeg fod yn ddefnyddiol hefyd. Gallai hyn gael ei gynnwys ym mriff y dasg.

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

7 Cwisiau a gemau

Mae cwisiau a gemau dwyieithog yn ffordd wych o feithrin sgiliau Cymraeg a gwybodaeth am bwnc, gan gael hwyl ar yr un pryd! Gall eich dysgwyr gwblhau'r rhain yn unigol neu ar y cyd.

COFIWCH does dim rhaid i'r tiwtor greu pob un o'r gweithgareddau hyn. Bydd gosod tasgau i'ch dysgwyr greu cwisiau a gemau yn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r pwnc yn ogystal â rhoi cyfle iddynt gymryd cyfrifoldeb am y Gymraeg a ddefnyddir yn eu gemau.

Quizzes

Mae cwisiau'n ffordd dda iawn o ddysgu termau ac ymadroddion allweddol a gallant fod yn ddefnyddiol ar gyfer asesu ac adolygu hefyd.

Mae yna lawer o adnoddau ar-lein ar gyfer creu cwisiau a gemau, a dyma rai enghreifftiau.

Kahoot!

Platfform dysgu ar-lein drwy gyfrwng gemau yw Kahoot. Mae'n galluogi defnyddwyr i greu cwisiau difyr i'w rhannu gyda'i gilydd. Gall tiwtoriaid gynnal cwis Kahoot yn fyw mewn gwers gan ddangos y cwestiynau, yr atebion a safleoedd y dysgwyr ar eu bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Gallech lunio cwis Kahoot cwbl ddwyieithog neu ofyn cwestiyna'n ddwyieithog a rhoi atebion Cymraeg. Mae hyn yn gweithio'n dda iawn ar gyfer termau allweddol, yn enwedig os byddwch yn ailadrodd y termau yn y ddwy iaith yn gyson drwy'r wers.

Kahoot!

Quizlet

Adnodd ar y we i greu cwisiau ar-lein yw Quizlet. Mae Quizlet yn cynnwys dewisiadau amrywiol ar gyfer cwisiau fel cardiau fflach a gemau paru, sillafu a dysgu. Fel gyda Kahoot, gallech greu cwis cwbl ddwyieithog neu ofyn cwestiynau'n ddwyieithog a rhoi atebion Cymraeg.

Quizlet

Mentimeter

Gyda Mentimeter gallwch greu Polau, Cwisiau a Chymylau Geiriau rhyngweithiol. Mae'r rhyngweithiadau'n 'fyw' ac mae'r dysgwyr yn defnyddio eu ffonau clyfar i gyfrannu'n ddienw. Gellir defnyddio Mentimeter mewn sawl ffordd i wella dysgu ac addysgu dwyieithog gan gynnwys creu cymylau geiriau ac ateb cwestiynau neu gwisiau amlddewis neu benagored. Unwaith eto, bydd gofyn y cwestiynau'n ddwyieithog yn annog y dysgwyr i gyfrannu yn eu dewis iaith. Wrth drafod y canlyniadau, gallwch ofyn i'r dysgwyr gyfieithu'r termau allweddol a'r atebion ar eich rhan.

Mentimeter

Gemau

Mae yna gannoedd o apiau a gwefannau gwych ar gael i'ch helpu i greu gemau a chwisiau hwyliog a diddorol i ddysgwyr. Pa bynnag rai rydych chi'n bwriadu eu defnyddio gyda'ch dysgwyr, ystyriwch ymlaen llaw sut y gellir cynnwys y Gymraeg yn y gêm neu'r cwis. Y ffordd hawsaf a mwyaf effeithiol fydd termau allweddol, ond gallwch hefyd ei gwneud yn glir yn y gemau a'r cwisiau eich bod yn disgwyl i ddysgwyr gyfrannu yn y Gymraeg. Dyma rai adnoddau eraill y gallech fod eisiau edrych arnynt:

Wordsearch

Answer Garden

Wordwall

My Wordle

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

8 Cwblhau o leiaf un uned neu agwedd ar y cwrs yn ddwyieithog

Byddai'n eithriadol o heriol i newid cwrs cyfrwng Saesneg i fod yn gwbl ddwyieithog dros nos. Bydd angen amser i wneud hynny'n iawn, felly dechreuwch drwy ganolbwyntio ar un uned neu fodiwl ar y tro.

Dod o hyd i adnoddau dwyieithog

Dechreuwch drwy ganfod pa adnoddau dwyieithog sydd eisoes ar gael:

- Y Corff Dyfarnu - bellach mae mwy a mwy o gyrff dyfarnu'n cynhyrchu adnoddau a deunyddiau cefnogi dwyieithog, felly lle da i ddechrau yw drwy wirio beth sydd gan eich corff dyfarnu i'w gynnig.
- Cydweithwyr - Mae'n bosibl bod gennych gydweithwyr sy'n darparu'r un unedau mewn cymhwyster, ac efallai fod ganddyn nhw adnoddau sydd wedi cael eu cyfieithu. Peidiwch â bod ofn gofyn am gael rhannu'r adnoddau hyn.

- Y Porth - defnyddio Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddod o hyd i adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn y sector gwallt a harddwch yn ogystal â meysydd pwnc eraill. Mae'r Porth yn dod ag ystod eang o adnoddau Cymraeg a dwyieithog, sydd wedi'u hanelu'n benodol at y sector addysg ôl-16, at ei gilydd mewn un lle ac yn cynnwys cyfleuster chwilio sy'n ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'r union beth rydych chi'n chwilio amdano. Mae'r mathau o adnoddau sydd ar gael yn amrywio, o gyflwyniadau i daflenni dosbarth a hyd yn oed gyrsiau i ddysgwyr eu hastudio'n annibynnol. Gallwch ddefnyddio'r adnoddau yn eich gwersi neu roi'r dolenni iddynt ar eich llwyfan dysgu digidol (e.e. Moodle neu Google Classroom) fel bod y dysgwyr yn gallu eu defnyddio ar eu pennau eu hunain. Mae adnoddau newydd yn cael eu datblygu'n gyson a'u hychwanegu i'r Porth, felly mae'n werth edrych arno'n rheolaidd i weld beth sy'n newydd. Neu gallwch danysgrifio i dderbyn negeseuon e-bost i roi gwybod i chi am adnoddau newydd.
  - Defnyddio'r Porth - gwyliwch y fideo i ddysgu rhagor am sut mae'r Porth yn gweithio a sut i'w ddefnyddio.

    Defnyddio'r Porth
  - Chwilio'r Porth - ewch i'r Porth a dechreuwch chwilio am adnoddau gwallt a harddwch.

    Chwilio'r Porth
- Hwb yw llwyfan dysgu digidol Llywodraeth Cymru ac mae'n gartref i gasgliad amrywiol o gyfarpar ac adnoddau i gefnogi dysgu ac addysgu yng Nghymru. Mae Hwb wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn ysgolion ers blynyddoedd, ac yn ddiweddar fe'i datblygwyd ymhellach ar gyfer y sector ôl-16. Mae adran ôl-16 Hwb yn tyfu a'r nod yw bod yn 'siop un stop' lle gall staff ganfod, creu a rhannu adnoddau ac arferion da.
  - Defnyddio Hwb - gwyliwch y fideo i ddysgu rhagor am HWB a sut mae'n gweithio.

    Defnyddio Hwb
  - Chwilio Hwb - ewch i Hwb i gael golwg ar yr adnoddau sydd ar gael.

    Chwilio Hwb

Translate resources

Bydd gennych lawer o adnoddau dysgu rydych wedi'u creu eich hun fel taflenni gwaith, tasgau, briffiau asesiadau, cyflwyniadau PowerPoint ac ati. Dechreuwch gael cyfieithu'r rhain, un modiwl neu uned ar y tro. Os oes gennych lawer o adnoddau i'w cyfieithu, dechreuwch feddwl am ba adnoddau y byddech chi a'ch dysgwyr yn eu defnyddio fwyaf (e.e. rhestr o dermau neu gyflwyniadau PowerPoint) a dechreuwch gyda'r rhain.

Y dewis gorau fyddai cael cyfieithydd i gyfieithu eich adnoddau, felly os yw'ch sefydliad yn darparu gwasanaeth cyfieithu ystyriwch ei ddefnyddio. Gall hyn gymryd ychydig mwy o amser a bydd angen ychydig mwy o gynllunio na gwneud y gwaith eich hun, ond drwy gael eich adnoddau wedi'u cyfieithu'n broffesiynol gallwch fod yn hyderus bod y cyfieithiad yn gywir a bod y termau cywir yn cael eu defnyddio.

Os nad oes gennych fynediad i dîm cyfieithu proffesiynol, mae llawer o adnoddau y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i gyfieithu'r adnoddau eich hun.

- Mae Google Translate wedi gwella'n sylweddol ac erbyn hyn gall gyfieithu'r rhan fwyaf o destunau'n effeithiol.

Google translate

- Mae gan Google Docs hefyd gyfleuster sy'n eich galluogi i gyfieithu dogfen gyfan.

Google Docs

- Ap Geiriaduron
  - Geiriadur Saesneg-Cymraeg / Cymraeg Saesneg sy'n caniatáu i chi chwilio all-lein am filoedd o eiriau Cymraeg a Saesneg (gan gynnwys termau addysg safonol) yw'r Ap Geiriaduron.
  - Mae'r ap ar gael yn rhad ac am ddim i'w lwytho ar ddyfeisiau Android neu iOS.

Ap Geiriaduron

PWYSIG: os ydych yn defnyddio unrhyw gyfieithiad a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur fe'ch cynghorir i fod yn ofalus gan nad yw'r cyfieithiad bob amser yn gywir - **cofiwch brawf ddarllen y cyfieithiad bob amser cyn ei ddefnyddio.**

Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar lefel B2:

"Os cafodd unrhyw ran o dystiolaeth y portffolio ei chwblhau yn Gymraeg, gan gynnwys asesu llafar, byddai hyn yn atgyfnerthu y dylid ei gofnodi fel B2."

- Cyfleoedd asesu presennol
  - Meddyliwch am yr asesiadau ffurfiannol a chrynodol rydych yn eu defnyddio ar eich cwrs ar hyn o bryd. Oes posibl addasu rhai o'r rhain mewn ffordd sy'n gofyn am allbwn Cymraeg neu ddwyieithog? Er enghraifft, posteri - yn hytrach na gofyn am boster, gofynnwch am boster dwyieithog.
- Cyfleoedd asesu newydd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog
  - Rydym wedi edrych ar sawl enghraifft o dasgau Cymraeg/dwyieithog yn y bennod hon. Sut y gallech chi gynnwys rhai o'r rhain yn eich cynllun dysgu, addysgu ac asesu er mwyn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog?

Ystyriwch sut y gallai hyn weithio gyda'ch dysgwyr. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

Cynllun gweithredu

Rydych yn awr wedi cyrraedd diwedd y bennod **‘Meithrin sgiliau addysgu B2’.** Rydym wedi edrych ar nifer o strategaethau y gallech eu cynnwys yn eich gwersi er mwyn symud eich darpariaeth o B3 i B2. Cymerwch ennyd i feddwl am yr hyn rydych wedi ei ddysgu a pha rai o’r strategaethau hyn yr hoffech roi cynnig arnynt.

Cofiwch - Does dim rhaid i chi gynnwys popeth a awgrymir isod yn eich arferion addysgu er mwyn cyrraedd lefel B2. Dewiswch y camau a’r gweithgareddau sydd fwyaf cyfforddus i chi ac sydd fwyaf addas i’ch cwrs ac i’ch dysgwyr. Dechreuwch gyda dim ond un neu ddau o’r syniadau a awgrymir er mwyn gweld sut hwyl gewch chi arni. Gallwch bob amser ychwanegu mwy ohonynt i’ch gwersi wrth i’ch hyder gynyddu. Cofiwch hefyd mai dim ond awgrymiadau yw’r syniadau a gyflwynir yn y llawlyfr hwn. Peidiwch â bod ofn rhoi cynnig ar eich syniadau eich hun.

Defnyddiwch y tabl isod i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cynnwys rhagor o Gymraeg yn eich gwersi. Ychwanegwch gymaint o fanylion â phosibl i’ch helpu i gyrraedd y targedau rydych wedi’u gosod. Cofiwch ddod yn ôl at eich cynllun gweithredu i adolygu eich cynnydd; mae hwn yn gyfle i edrych ar ba strategaethau sydd wedi gweithio i chi a pha newidiadau, os o gwbl, y mae angen i chi eu gwneud.

Cam Gweithredu (y strategaeth/ gweithgaredd rydych am ddechrau ei defnyddio)	**Y Gynulleidfa Darged** (nodwch pa grŵp o ddysgwyr i’w targedu)	**Maes cwricwlwm** (nodwch ym mha uned neu fodiwl y mae’r cam gweithredu hwn i’w gynnwys ac ymhle)	**Adnoddau** (nodwch yr adnoddau y bydd eu hangen arnoch)	**Amserlen** (rhowch ddyddiad ichi eich hun i anelu ato)	**Adolygu** (Unwaith yr ydych wedi cyrraedd eich targed, cymerwch ennyd i adolygu pa mor llwyddiannus oedd hyn ac a oes angen gwneud rhywbeth yn wahanol y tro nesaf)

Meithrin sgiliau addysgu B1



Rydych naill ai wedi asesu eich hun fel un sy'n addysgu ar lefel B2 ar hyn o bryd neu rydych wedi gweithio eich ffordd drwy'r bennod flaenorol a bellach yn barod i ddysgu am feithrin sgiliau addysgu B1 er mwyn cynnig profiadau dysgu cwbl ddwyieithog i'ch dysgwyr.

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys syniadau ymarferol y gallwch eu defnyddio yn eich gwersi er mwyn caniatáu i'r dysgu ddigwydd mewn cyd-destun dwyieithog. Bydd y syniadau hyn yn eich helpu i symud y raddol o fodel addysgu B2 i fodel addysgu B1.

Beth yw darpariaeth ddwyieithog B1?

Gadewch i ni atgoffa ein hunain:

"B1: Y dysgu'n cael ei gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog ac o leiaf 50 y cant o'r asesiadau sydd ar gael yn y gweithgaredd dysgu yn cael eu cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cyflawni'r canlyniad drwy ddefnyddio unrhyw fethodoleg addysgu briodol."

Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru

Tra bod B3 a B2 yn canolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, mae B1 yn canolbwyntio ar ddysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Weithiau gall fod yn anodd perswadio dysgwyr i gwblhau asesiadau yn y Gymraeg, hyd yn oed os ydyn nhw'n siaradwyr Cymraeg rhugl.

Felly, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer asesiadau Cymraeg, rhaid ystyried sut y gellir perswadio ac annog dysgwyr i gwblhau asesiadau yn y Gymraeg.

Profiadau Dysgu Dwyieithog

B1 yw'r cod ar gyfer darpariaeth sy'n rhoi profiad dysgu dwyieithog llawn i ddysgwyr. Mae'r model addysgu B1 yn cynnwys defnyddio adnoddau Cymraeg neu ddwyieithog i gefnogi'r dysgwyr, a rhoi digon o gyfleoedd (ac anogaeth) i ddysgwyr wneud eu hasesiadau yn y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac/neu ar lafar).

Mae llawer o ffactorau'n cyfrannu tuag at roi profiad dwyieithog llawn i ddysgwyr, felly i symud eich darpariaeth o fodel B2 i B1 rhaid i chi ystyried eich dulliau addysgu yn eu cyfanrwydd.

1 Amgylchedd yr ystafell ddosbarth

Dechreuwch drwy greu amgylchedd Cymraeg/dwyieithog yn eich dosbarth sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr glywed, gweld a defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd. Gwnewch y Gymraeg yn rhan naturiol o'u profiadau dysgu yn hytrach nag yn rhywbeth maent yn dod ar ei draws yn achlysurol.

A - Cymraeg Llafar

Gosodwch esiampl i'ch dysgwyr a siarad Cymraeg ar bob cyfle gan eu hannog hwythau i wneud yr un peth.

B - Adborth

Rhowch adborth Cymraeg i'ch dysgwyr. Gall ap geirfa ddwyieithog Sgiliaith - 'Ap Adborth Sgiliaith' - helpu gyda hyn. Yn yr ap ceir ystod eang o eiriau ac ymadroddion cyffredinol y gall tiwtoriaid eu defnyddio i roi adborth a phrofiadau Cymraeg/dwyieithog i ddysgwyr.

Ap Adborth Sgiliaith - App Store

Ap Adborth Sgiliaith - Google Play

C - Rhoi lle amlwg i'r Gymraeg yn eich ystafell ddosbarth

Gwnewch yn siŵr fod y posteri a'r arwyddion i gyd yn ddwyieithog, a rhowch waith Cymraeg a dwyieithog gan eich myfyrwyr ar y waliau. Os oes gennych lyfrau, cylchgronau neu lyfrynnau'r diwydiant yn eich dosbarth, gwnewch yn siŵr fod o leiaf rai ohonynt yn rhai Cymraeg. .

D - Y Cynnig Rhagweithiol

Mae'n bwysig ei gwneud hi'n glir o'r dechrau bod croeso i ddysgwyr gyfrannu i'r wers yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Dyma'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae'n golygu rhoi gwybod i ddysgwyr bod croeso iddynt ddefnyddio'u Cymraeg a chyfrannu yn y Gymraeg, heb orfod gofyn am gael gwneud hynny. Gall defnyddio'r cynnig rhagweithiol yn eich gwersi ar-lein osod esiampl i ddysgwyr o sut y gallant hwy hefyd ddefnyddio'r cynnig rhagweithiol wrth symud o'r ystafell ddosbarth i'r gweithle gwallt a harddwch.

Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

2 Gweithgareddau allgyrsiol

Efallai na fydd gweithgareddau allgyrsiol yn cyfrannu at y broses asesu, ond gallant roi cyfleoedd amhrisiadwy i ddysgwyr fagu hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Gallant hefyd helpu dysgwyr i sylweddoli gwerth cael sgiliau Cymraeg a helpu i'w perswadio o fanteision cwblhau eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, neu o leiaf ran ohono. Gall gweithgareddau allgyrsiol hefyd helpu i greu ethos Cymraeg yn y coleg neu'r sefydliad, a helpu'r dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o falchder a pherthyn a all arwain at fwy o ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r iaith.

Mae'r posibiliadau ar gyfer cynnwys y Gymraeg mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ddi-ben-draw.

- Syniadau'r dysgwyr - dechreuwch drwy ofyn i'r dysgwyr beth yr hoffen nhw ei wneud. Gallai hyn fod yn rhan o'r sesiynau cynefino â'r coleg neu'r rhaglenni tiwtorial.
- Beth mae colegau eraill yn ei wneud - dechreuwch edrych ar gyfryngau cymdeithasol colegau eraill i weld beth maen nhw yn ei wneud; does dim rhaid i'ch syniadau chi fod yn wreiddiol. Os dewch chi ar draws syniad y credwch y byddai'n gweithio'n dda gyda'ch dysgwyr, yna rhowch gynnig arno.
- Cysylltu â sefydliadau allanol - mae yna lawer o sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r Gymraeg ac a fyddai'n falch iawn o weithio gyda'ch dysgwyr. Dyma rai enghreifftiau:

Yr Urdd

Mentrau Iaith lleol

Gyrfa Cymru

Llywodraeth Cymru

Syniadau Mawr Cymru

- Dathliadau/digwyddiadau cenedlaethol - ystyriwch ddigwyddiadau sy'n codi ymwybyddiaeth neu'n dathlu digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Shwmae Su'mae ac ati.

Dydd Gŵyl Dewi

Dydd Santes Dwynwen

Dydd Miwsig Cymru

Diwrnod Shwmae Su'mae

- Digwyddiadau chwaraeon.
  - Dilynwch dimau cenedlaethol Cymru.
  - Trefnwch ddigwyddiadau i ddysgwyr gyda phartneriaid, e.e. yr Urdd, Mentrau Iaith, busnesau lleol gyda gweithwyr sy'n siarad Cymraeg, y cyngor lleol, Chwaraeon Cymru.

Chwaraeon Cymru

- Siaradwyr gwadd - Gwahoddwch siaradwyr Cymraeg i'r dosbarth i siarad â'ch dysgwyr. Beth bynnag fo'r maes maent yn arbenigo ynddo, gofynnwch iddynt dreulio amser yn siarad am sut mae gallu siarad Cymraeg wedi bod o fudd iddynt yn y diwydiant gwallt a harddwch, a sut mae wedi helpu eu gyrfa neu'u busnes ac ati.
- Tripiau ac ymweliadau - Ewch â'ch dysgwyr ar dripiau/ymweliadau i lefydd o bwys diwylliannol. Wrth drefnu tripiau ac ymweliadau, cofiwch ofyn am arweinwyr dwyieithog.

Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi. Meddyliwch am fusnesau, cwmnïau neu sefydliadau cenedlaethol a allai eich helpu i ddarparu gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg/dwyieithog i'ch dysgwyr.

3 Adnoddau

Er mwyn i'ch darpariaeth gael y cod B1, mae'n rhaid i'r adnoddau sydd gennych i gefnogi'r dysgu fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dod o hyd i adnoddau

Mae mwy a mwy o adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn awr yn cael eu cynhyrchu a'u rhannu ar draws y sector, felly does dim rhaid i chi greu neu gyfieithu popeth eich hun.

- Y Corff Dyfarnu - bellach mae mwy a mwy o gyrff dyfarnu'n cynhyrchu adnoddau a deunyddiau cefnogi dwyieithog, felly lle da i ddechrau yw drwy wirio beth sydd gan eich corff dyfarnu i'w gynnig.
- Cydweithwyr - mae'n bosibl bod gennych gydweithwyr sy'n darparu'r un unedau mewn cymhwyster, ac efallai fod ganddyn nhw adnoddau sydd wedi cael eu cyfieithu. Peidiwch â bod ofn gofyn am gael rhannu'r adnoddau hyn.
- Y Porth - defnyddio Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddod o hyd i adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn y sector gwallt a harddwch a meysydd pwnc eraill. Mae'r Porth yn dod ag ystod eang o adnoddau Cymraeg a dwyieithog, sydd wedi'u hanelu'n benodol at y sector addysg ôl-16, at ei gilydd mewn un lle ac yn cynnwys cyfleuster chwilio sy'n ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'r union beth rydych chi'n chwilio amdano. Mae'r mathau o adnoddau sydd ar gael yn amrywio, o gyflwyniadau i daflenni dosbarth a hyd yn oed gyrsiau i ddysgwyr eu hastudio'n annibynnol. Gallwch ddefnyddio'r adnoddau yn eich gwersi neu roi'r dolenni iddynt ar eich llwyfan dysgu digidol (e.e. Moodle neu Google Classroom) fel bod y dysgwyr yn gallu eu defnyddio ar eu pennau eu hunain. Mae adnoddau newydd yn cael eu datblygu'n gyson a'u hychwanegu i'r Porth, felly mae'n werth edrych arno'n rheolaidd i weld beth sy'n newydd. Neu gallwch danysgrifio i dderbyn negeseuon e-bost i roi gwybod i chi am adnoddau newydd.
    - Defnyddio'r Porth - gwyliwch y fideo i ddysgu rhagor am sut mae'r Porth yn gweithio a sut i'w ddefnyddio.

      Defnyddio'r Porth
    - Chwilio'r Porth - ewch i'r Porth i weld pa adnoddau gwallt a harddwch sydd ar gael.

      Chwilio'r Porth
- Hwb yw llwyfan dysgu digidol Llywodraeth Cymru ac mae'n gartref i gasgliad amrywiol o gyfarpar ac adnoddau i gefnogi dysgu ac addysgu yng Nghymru. Mae Hwb wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn ysgolion ers blynyddoedd, ac yn ddiweddar fe'i datblygwyd ymhellach ar gyfer y sector ôl-16. Mae adran ôl-16 Hwb yn tyfu a'r nod yw bod yn 'siop un stop' lle gall staff ganfod, creu a rhannu adnoddau ac arferion da.
    - Defnyddio Hwb - gwyliwch y fideo i ddysgu rhagor am HWB a sut mae'n gweithio.

      Defnyddio Hwb

- Chwilio Hwb - ewch i Hwb i gael golwg ar yr adnoddau sydd ar gael.

Chwilio Hwb

Creu adnoddau

Os ydych yn creu neu'n cyfieithu eich adnoddau eich hun, mae llawer o adnoddau ar gael i'ch helpu chi:

- Mae Google Translate wedi gwella'n sylweddol ac erbyn hyn gall gyfieithu'r rhan fwyaf o destunau'n effeithiol.

Google translate

- Mae gan Google Docs hefyd gyfleuster sy'n eich galluogi i gyfieithu dogfen gyfan.

Google Docs

- Ap Geiriaduron
  - Geiriadur Saesneg-Cymraeg / Cymraeg Saesneg sy'n caniatáu i chi chwilio all-lein am filoedd o eiriau Cymraeg a Saesneg (gan gynnwys termau addysg safonol sy'n cael eu defnyddio yn y sector gwallt a harddwch) yw'r Ap Geiriaduron.
  - Mae'r ap ar gael yn rhad ac am ddim i'w lwytho ar ddyfeisiau Android neu iOS.

'Ap Geiriaduron'

PWYSIG: os ydych yn defnyddio unrhyw gyfieithiad a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur fe'ch cynghorir i fod yn ofalus gan nad yw'r cyfieithiad bob amser yn gywir - **cofiwch brawf ddarllen y cyfieithiad bob amser cyn ei ddefnyddio.**

Gosodiad yr adnoddau dwyieithog

Wrth greu eich adnoddau eich hun, bydd angen i chi ystyried pa osodiad fyddai orau ar gyfer y testun Cymraeg a Saesneg. Mae sawl gosodiad y gallwch ddewis ohonynt, ond dyma rai canllawiau defnyddiol i chi eu cadw mewn cof:

- Yr ystyriaeth bwysicaf yw bod angen i'r ddwy iaith fod yr un mor hawdd i'w darllen. Os yw'n bosibl, dylid gallu gweld y ddwy iaith ar un edrychiad.
- Rhowch flaenoriaeth i'r Gymraeg. Gellir gwneud hyn drwy roi'r Gymraeg lle mae fwyaf tebygol o gael ei darllen yn gyntaf, e.e. ar ochr chwith cyflwyniad PowerPoint neu ar dop taflen waith.
- Mae cysondeb yna allweddol wrth ystyried sut rydych am osod eich gwaith. Gwnewch yn siŵr eich bod bob amser yn rhoi'r Gymraeg yn yr un lleoliad ar eich adnoddau fel eich bod chi a'ch dysgwyr yn gwybod ble i'w darllen.
- Ceisiwch ddefnyddio'r un ffont i'r ddwy iaith, ond ystyriwch ddefnyddio lliw ychydig yn wahanol fel bod y dysgwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Os ydych yn defnyddio adnoddau Cymraeg a Saesneg ar wahân (e.e. oddi ar wefan), gwnewch yn siŵr fod y dysgwyr yn gwybod bod yr adnodd ar gael yn y ddwy iaith a bod modd iddynt gael mynediad iddynt ar yr un pryd.

Dyma enghraifft o gwis amlddewis dwyieithog. Yn yr enghraifft hon mae'r tiwtor wedi:

- paratoi adnodd cwbl ddwyieithog.
- gosod y gwaith mewn colofnau cyfochrog fel bod y ddwy iaith i'w gweld ochr yn ochr. Mae'r gosodiad hwn yn gweithio'n dda gan fod y dysgwyr yn gallu symud yn ôl a blaen rhwng y ddwy iaith yn hawdd.
- bod yn gyson drwy ddefnyddio'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.
- sicrhau rhaniad clir rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Beth yw pwrpas profi clwt cyn cymhwyso lliw gwallt?	**What is the purpose of a patch test before applying hair dye?**
a) I brofi tymheredd y lliw	a) To test the temperature of the dye
b) I sicrhau nad yw'r cleient ag alergedd i'r lliw	b) To ensure the client is not allergic to the dye
c) I wirio ansawdd y gwallt	c) To check the client's hair texture
d) I benderfynu ar y lliw gorau ar gyfer y cleient	d) To determine the best colour for the client

Dyma enghreifftiau o gyflwyniadau dwyieithog - mae'r cyntaf yn defnyddio lliwiau gwahanol ar gyfer y testun Cymraeg a'r testun Saesneg tra bod yr ail yn defnyddio cefndir o liw gwahanol. Yn y ddau achos mae rhaniad clir rhwng y ddwy iaith.

Ymgynghoriad Cleient ar gyfer Triniaethau Wyneb	**Client Consultation for Facials**
1. Gofyn am y math o groen (sych, olewog, cymysgedd, sensitif)	1. Ask about skin type (dry, oily, combination, sensitive)
2. Trafod unrhyw alereddau neu gyflyrau'r croen	2. Discuss any allergies or skin conditions
3. Nodwch y canlyniad dymunol ar gyfer y driniaeth wyneb	3. Identify the desired outcome of the facial
4. Argymell cynhyrchion a thriniaethau priodol	4. Recommend suitable products and treatments

Technegau Lliwio Gwallt	**Hair Colouring Techniques**
• Lliw parhaol • Lliw hanner-parhaol • Goleuo a thywyllu cudynnau gwallt • Cywiro lliw	• Permanent Colour • Semi-Permanent Colour • Highlights & Lowlights • Colour Correction
Ffactorau Allweddol i'w Ystyried:	**Key Factors to Consider:**
• Lliw naturiol y gwallt • Canlyniad dymunol • Cyflwr y gwallt	• Client's natural hair colour • Desired outcome • Hair condition

Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi. Beth am greu rhestr o'r adnoddau rydych yn eu defnyddio'n rheolaidd gyda'ch dysgwyr; rhowch flaenoriaeth i'r rhain a lluniwch gynllun gweithredu o adnoddau i'w cyfieithu yn y tymor byr, canolig a hir.

4 Asesiadau

Er mwyn i'ch darpariaeth gael y cod B1, mae'n rhaid i 50% o'r asesiadau gael eu cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg. I ddibenion y LLWR, gall yr asesiadau hyn fod yn ffurfiannol neu'n grynodol, yn ysgrifenedig neu'n llafar.

Argaeledd asesiadau Cymraeg

Dechreuwch trwy weld a yw sefydliad dyfarnu'r cwrs rydych yn ei ddarparu yn cynnig asesiadau Cymraeg. dydyn nhw i gyd ddim yn gwneud hynny! Gallwch wirio iaith y cymhwyster ar Cymwysterau yng Nghymru (QiW). Os nad oes asesiadau ffurfiol ar gael yn y Gymraeg, mae'n annhebygol iawn y gallwch gyrraedd lefel B1. Os felly, dylech gysylltu â'r corff dyfarnu i wneud cais am asesiadau dwyieithog. Os na all y corff dyfarnu ddarparu asesiadau dwyieithog, dylech ddwyn y mater i sylw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol drwy anfon neges e-bost i post16@colegcymraeg.ac.uk neu drwy lenwi'r ffurflen hon:

Dolen i QIW: Chwilio am gymwysterau

Dolen i ffurflen ar gyfer cofnodi cymwysterau nad ydynt ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg:

Asesiadau ysgrifenedig

- Gwnewch yn siŵr fod pob dysgwr yn cael yr holl ddogfennau asesu angenrheidiol yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan gynnwys briff yr asesiadau, canllawiau'r corff dyfarnu ac ati.
- Os ydych yn rhoi rhestr ddarllen i'r dysgwyr, gwnewch yn siŵr fod y rhestr yn cyfeirio at ddeunyddiau Cymraeg.
- Termau Allweddol ym maes gwallt a harddwch - gall rhai termau allweddol neu dermau sy'n gysylltiedig â phwnc penodol fod yn anodd eu cyfieithu. Gall rhoi rhestr o dermau dwyieithog i ddysgwyr eu helpu i ysgrifennu yn y Gymraeg gan eu bod yn gallu bod yn sicr eu bod yn defnyddio'r cyfieithiad cywir yn eu gwaith.

- Meddalwedd i wirio sillafu a gramadeg - rhowch amser i sicrhau bod eich dysgwyr yn gwybod ble i gael, a sut i ddefnyddio, meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg. Mae pecyn Cysgliad ar gael ar y rhan fwyaf o systemau TG colegau yng Nghymru ac mae'n cynnwys:

  Cysill - Rhaglen ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Gymraeg (gan gynnwys treigliadau)

  Cysgeir - Set gynhwysfawr o eiriaduron hawdd eu defnyddio

  Mae trwyddedau meddalwedd Cysill a Cysgeir am ddim i unigolion felly gall eich dysgwyr eu lawrlwytho a'u defnyddio ar eu cyfrifiaduron personol heb orfod talu ceiniog.

Asesiadau llafar

Am nifer o resymau, bydd rhai dysgwyr yn gyndyn o gwblhau asesiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg (e.e. diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig, pryder nad yw eu Cymraeg ysgrifenedig yn ddigon da ar gyfer gwaith academaidd), felly cynlluniwch ar gyfer rhoi digon o gyfleoedd iddynt siarad Cymraeg mewn asesiadau llafar.

Enghreifftiau:

- Cyflwyniadau
- Trafodaethau grŵp
- Chwarae Rôl
- Cyfweliadau

Efallai y bydd angen peth anogaeth ar siaradwyr Cymraeg i gwblhau'r asesiadau llafar hyn yn y Gymraeg. Anogwch hwy drwy roi adborth adeiladol a thrwy ganmol y dysgwyr am ddefnyddio'r Gymraeg. Dylid bod yn ofalus wrth gywiro dysgwyr wrth iddynt siarad Cymraeg oherwydd fe all hyn gael effaith negyddol ac amharu ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae siaradwyr dwyieithog yn dueddol o ddefnyddio'r ddwy iaith pan fyddant yn siarad. Mae hyn yn gwbl naturiol ac ni ddylai'r tiwtor fod yn orfeirniadol.

Anogwch y dysgwyr i ysgrifennu nodiadau ar gyfer eu defnydd eu hunain yn ystod y tasgau hyn - bydd hyn yn eu hannog i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg ysgrifenedig heb boeni bod y gwaith ysgrifenedig yn mynd i gael ei asesu.

Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

5 Dylanwadu ar y dewis o iaith

- Byddwch yn llysgennad dros y Gymraeg. Mae eich agwedd tuag at y Gymraeg yn cael effaith ar eich dysgwyr a gall siapio a dylanwadu ar eu profiad dysgu gyda chi. Y peth pwysicaf yw eich bod yn frwdfrydig dros y Gymraeg a'ch bod yn annog ac ysbrydoli eich dysgwyr i sylweddoli bod y Gymraeg yn fanteisiol i'w cwrs ac yn gweithio gyda nhw i'w cefnogi i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cofiwch mai chi sy'n arwain ac yn rheoli eich dysgwyr. Gallwch eu tywys i gwblhau gwaith yn y Gymraeg, weithiau heb iddynt sylwi hyd yn oed.
- Anogwch ac ysbrydolwch eich dysgwyr a rhowch wybod iddynt fod eu sgiliau'n bwysig a bod eu dwy iaith yn gyfle yn hytrach na chyfrifoldeb, yn fantais yn hytrach nag anfantais.
- Codwch eu hymwybyddiaeth o fanteision cael sgiliau dwyieithog, yn enwedig wrth weithio mewn swyddi gwallt a harddwch. Bydd hyn hyd yn oed yn fwy manteisiol iddynt os gallwch ei wneud yn berthnasol i'w maes pwnc, e.e. dangos hysbysebion swyddi yn eich maes pwnc sy'n dangos bod y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol neu astudiaeth achos gan gyflogwr.

Busnesau twristiaeth a lletygarwch yn tynnu sylw at fanteision defnyddio'r Gymraeg

Y Gymraeg: Mae gen ti fantais

Manteision Dwyieithrwydd - Sgiliaith poster

Casgliad o bosteri gan Sgiliaith ar fanteision bod yn ddwyieithog

Gwerth "Cymreictod"

Cymraeg Byd Busnes. Mae'r fideos hyn wedi cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo gwerth y Gymraeg i amrywiaeth o ddiwydiannau gwahanol.

Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi:

6 Dylanwadu ar y dewis o iaith

Er mwyn rhoi profiadau dysgu B1 i ddysgwyr mae cynllunio gofalus yn hanfodol.

Gall y tiwtor ddefnyddio'r ddwy iaith yn ei wersi, ond bydd y model addysgu'n wan os na fydd y dysgwyr yn cael cyfle i ddefnyddio'u dewis iaith neu i feithrin sgiliau yn y ddwy iaith. Model addysgu dwyieithog cryf yw un sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg i fod yn hyderus i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn gwersi'n ôl eu gallu.

Dyma rai pethau i'w hystyried wrth gynllunio profiad dysgu cwbl ddwyieithog:

- A yw'r ddau grŵp ieithyddol yn cael eu trin yn deg?
- A yw siaradwyr Cymraeg yn gweld ac yn clywed digon o Gymraeg i fod yn hyderus i ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd ac o flaen y dosbarth?
- A yw siaradwyr di-Gymraeg yn deall beth sy'n digwydd ac yn chwarae rhan weithredol yn y wers?
- A yw'r holl ddysgwyr yn gallu cael eu hasesu'n deg yn yr iaith a ddewisant?
- I ba raddau mae'r wers yn canolbwyntio ar y dysgwyr?

Awgrym!

Ffordd hawdd o gofio bod angen cynllunio ar gyfer dwy iaith yn eich gwersi yw cynnwys 'colofn iaith' yng nghynllun eich gwers. Gall gynnwys gwybodaeth fel:

- pa strategaethau addysgu dwyieithog fyddwch chi'n eu defnyddio
- unrhyw adnoddau dwyieithog y byddwch yn eu defnyddio
- yr iaith y bydd y tiwtor yn ei defnyddio
- yr iaith y mae disgwyl i'r dysgwyr ei defnyddio, ar lafar ac yn ysgrifenedig

Un o brif ystyriaethau addysgu dwyieithog yw sicrhau tegwch i'r ddwy iaith yn gyson Gall hyn yn aml gael ei weld fel rhywbeth ychwanegol i feddwl amdano ac weithiau fe all amharu ar lif yr addysgu a'r esbonio. Mewn rhai achosion, gall addysgu dwyieithog sy'n dibynnu ar gyfieithu llafar cyson amharu ar eich brwdfrydedd a'ch egni wrth gyflwyno.

Y ffordd symlaf o geisio osgoi hyn yw lleihau faint o addysgu llafar dwyieithog sydd ei angen. Un ffordd o wneud hyn yw rhannu'r dosbarth yn grwpiau ieithyddol fel eich bod yn gallu addysgu'n unieithog y rhan fwyaf o'r amser. Dyma rai enghreifftiau o sut y gallech rannu eich amser:

Enghraifft 1

- Cyflwyniad Cymraeg i'r grŵp Cymraeg (tra bod y grŵp Saesneg yn paratoi trwy gymryd rhan mewn trafodaeth neu'n darllen neu'n gwneud gwaith ymarferol personol).
- Cyflwyniad Saesneg i'r grŵp Saesneg (tra bod y grŵp Cymraeg yn paratoi trwy gymryd rhan mewn trafodaeth neu'n darllen neu'n gwneud gwaith ymarferol personol).
- Pawb i weithio'n unigol neu mewn parau; (y darlithydd i ddefnyddio'r un iaith â'r unigolyn neu'r grŵp, felly un iaith).
- Adborth dwyieithog byr i drafod unrhyw broblemau a gododd.

Enghraifft 2

- Cam 1: Cyflwyniad cymharol fyr;
- Cam 2: Tasg Ddarllen - y grŵp Cymraeg yn darllen y nodiadau Cymraeg; y grŵp Saesneg yn darllen yn nodiadau Saesneg;
- Cam 3: Ymateb i'r sesiwn ddarllen mewn sesiwn holi ac ateb - mae'r cwestiynau a'r atebion yn y Gymraeg i'r siaradwyr Cymraeg sydd wedi dewis gweithio yn Gymraeg a'r siaradwyr Cymraeg sydd wedi dewis gweithio yn Saesneg. Yna mae'r darlithydd yn cyfieithu'r atebion i'r Saesneg. Y cwestiynau a'r atebion yn Saesneg i'r myfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg. Yn yr ail achos, os oes angen pwysleisio rhywbeth wrth y siaradwyr Cymraeg, bydd y darlithydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog.
- Cam 4: Dilynwch gan 1, 2 a 3 eto (sawl gwaith os oes angen).
- Cam 5: Rhoi adborth ac adolygu cynnwys y ddarlith - dwyieithog.

Yn enghraifft 1, yr unig addysgu dwyieithog lle mae angen cyfieithu popeth o un iaith i'r llall yw'r cyflwyniad a'r adborth a thrwy gynllunio'n ofalus, gallech gyfyngu hyn i ychydig funudau'n unig. Yn yr ail enghraifft hefyd mae'r angen i gyfieithu'n slafaidd am gyfnodau hir wedi diflannu ac fe wneir y cyflwyniad drwy ddefnyddio sgìl ieithyddol arall sef darllen ar gyfer trafodaeth. Gallai'r newid hwn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau darllen uwch. Yn achos cam 3, mae'r holi a'r ateb yn cynnig cyfle i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn ffordd greadigol a gofalus.

Mae angen cynllunio'n ofalus os ydych am ddefnyddio'r ddwy iaith yn yr un sesiwn. Mae'r cynllunio'n cynnwys:

- rhoi cyfle i bawb ddefnyddio eu dewis iaith
- gwneud yn siŵr fod pawb yn deall y prif bwyntiau ac yn cael y termau yn eu dewis iaith
- gwneud yn siŵr fod y wers yn symud yn ei blaen yn gyflym drwy beidio â chyfieithu mân bethau
- cynnal diddordeb pawb

Rhaid meddwl am ddulliau 'dysgu gweithredol' er mwyn hwyluso'r defnydd o'r ddwy iaith yn yr ystafell ddosbarth.

Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai syniadau am sut y gallwch gynnwys hyn yn eich gwersi.

Astudiaethau achos

Laura Wluka

Cliciwch yma i glywed Laura yn siarad am sut mae hi'n mynd ati i gynnwys y Gymraeg yn ei gwersi. Nodwch y dulliau mae Laura wedi eu defnyddio i ddechrau cynnwys y Gymraeg yn ei gwersi yn y blwch isod. Allwch chi feddwl am adegau lle gallech ddefnyddio technegau addysgu dwyieithog tebyg yn eich gwersi ac wrth ryngweithio i chi â'ch dysgwyr? Mae'n bwysig cofio nad oes un ffordd gywir o wneud hyn a bod angen i chi ddarganfod beth sy'n gweithio orau i chi, eich pwnc a'ch dysgwyr.

Laura Wluka

Ystyriwch yr hyn rydych wedi ei weld yn yr astudiaeth achos. Defnyddiwch y gwagle isod i nodi rhai ffyrdd a gallech gynnwys rhai o'r syniadau hyn yn eich gwersi:

Action plan

Rydych yn awr wedi cyrraedd diwedd y bennod ‘Meithrin sgiliau addysgu B1’. Rydym wedi edrych ar nifer o strategaethau y gallech eu cynnwys yn eich gwersi er mwyn symud eich darpariaeth o B2 i B1. Cymerwch ennyd i feddwl am yr hyn rydych wedi ei ddysgu a pha rai o’r strategaethau hyn yr hoffech roi cynnig arnynt.

Cofiwch - Does dim rhaid i chi gynnwys popeth a awgrymir isod yn eich arferion addysgu er mwyn cyrraedd lefel B1. Dewiswch y camau a’r gweithgareddau sydd fwyaf cyfforddus i chi ac sydd fwyaf addas i’ch cwrs ac i’ch dysgwyr. Dechreuwch gyda dim ond un neu ddau o’r syniadau a awgrymir er mwyn gweld sut hwyl gewch chi arni. Yna gallwch ychwanegu mwy ohonynt i’ch gwersi wrth i’ch hyder gynyddu. Cofiwch hefyd mai dim ond awgrymiadau yw’r syniadau a gyflwynir yn y llawlyfr hwn. Peidiwch â bod ofn rhoi cynnig ar eich syniadau eich hun.

Defnyddiwch y tabl isod i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cynnwys rhagor o Gymraeg yn eich gwersi. Ychwanegwch gymaint o fanylion â phosibl i’ch helpu i gyrraedd y targedau rydych wedi’u gosod. Cofiwch ddod yn ôl at eich cynllun gweithredu i adolygu eich cynnydd; mae hwn yn gyfle i edrych ar ba strategaethau sydd wedi gweithio i chi a pha newidiadau, os o gwbl, y mae angen i chi eu gwneud.

Cam Gweithredu (y strategaeth/ gweithgaredd rydych am ddechrau ei defnyddio)	**Y Gynulleidfa Darged** (nodwch pa grŵp o ddysgwyr i’w targedu)	**Maes cwricwlwm** (nodwch ym mha uned neu fodiwl y mae’r cam gweithredu hwn i’w gynnwys ac ymhle)	**Adnoddau** (nodwch yr adnoddau y bydd eu hangen arnoch)	**Amserlen** (rhowch ddyddiad ichi eich hun i anelu ato)	**Adolygu** (Unwaith yr ydych wedi cyrraedd eich targed, cymerwch ennyd i adolygu pa mor llwyddiannus oedd hyn ac a oes angen gwneud rhywbeth yn wahanol y tro nesaf)